



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

2.30 y.h., DYDD IAU, 12FED MEHEFIN, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 5 Mehefin 2025)

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODAETH (9)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Iwan Huws

Elin Hywel
Medwyn Hughes

Ioan Thomas

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Aelodau Cyfetholedig (2)

Cyngorydd Robin Wyn Williams
Cyngorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025 / 2026

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025 / 2026

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Mawrth 2025 fel rhai cywir

7. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

11 - 27

I ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Busnes

8. CPLLL: ADDAS I'R DYFODOL - CYFLWYNIAD PPC I'R LLYWODRAETH

28 - 124

I ystyried yr adroddiad ac argymell i'r Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2025):

1. Nodi Achos busnes PPC Addas i'r Dyfodol (Atodiad 3, Atodiad 4 ac adran 4)
2. Cymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy'n berchnogaeth llwyr i Awdurdodau Gweinyddu PPC a fydd yn cael ei adnabod yn Gwmni Rheoli PPC (IMCo.) a'r holl gamau eraill sy'n angenrheidiol i gyflwyno cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar gyfer awdurdodi'r IMCo. gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis a recriwtio Swyddogaethau Uwch Reolwyr (SMF) fel sy'n ofynnol gan yr FCA a pharatoi a chyflwyno'r cais i'r FCA. (Adran 5)
3. Cymeradwyo Cynllun Busnes a chyllideb ddiwygiedig PPC 2025/28 sy'n cynnwys costau dylunio/galluogi ar gyfer Prosiect yr Wyddfa (Atodiad 5 ac Adran 6)

4. Dirprwyo'r hawl i'r S151 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i fwrw ymlaen gyda Prosiect Wyddfa gyda Awdurdodau Gweinyddu PPC yn unol ag amserlen y Llywodraeth o fewn y gyllideb gymeradwy.
5. Dirprwyo cymeradwyaeth derfynol y dogfennaeth ffurfiol derfynol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r ImCo, a ddisgrifir fel 'Mynd yn Fyw' fel yr amlinellir yn Adran 7, i'r Pwyllgor Pensiynau i roi effaith i Achos Busnes PPC Addas i'r Dyfodol.

9. SYMPOSIWM PWLIO CPLLL 125

I ystyried a derbyn y wybodaeth.

10. CYNHADLEDD BUDDSODDI YNG NGHYMRU 126

I ystyried a derbyn y wybodaeth

PWYLLGOR PENSIYNAU 17-03-25

Presenoldeb:

Cadeirydd Cynghorydd Elin Hywel
Is-gadeirydd Cynghorydd Ioan Thomas

Cynghorwyr:

Stephen Churchman, John Brynmor Hughes, Iwan Huws a Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy)

Swyddogion:

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Eraill a wahoddwyd:

Osian Richards (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Richard Medwyn Hughes, Cyng. John Pughe Roberts a'r Cyng. Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 25 Dachwedd 2024 fel rhai cywir.

5. CYNLLUN HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Aelodau ar gynllun hyfforddiant 2024/25 a gosod cynllun hyfforddiant bras ar gyfer 2025/26. Ystyriwyd bod cynllun 2024/25 wedi bod yn llwyddiannus a diolchwyd i'r Aelodau am fynychu sesiynau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a'r Cynadleddau oedd yn cael eu canmol fel rhai defnyddiol ac amserol.

Wrth drafod cynllun hyfforddiant 2025/26, cyfeiriwyd at ganlyniadau Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson a gwblhawyd gan yr Aelodau yn ddiweddar. Atgoffwyd yr Aelodau bod Hymans Robertson wedi adnabod rhai meysydd sydd angen sylw pellach ynghyd â meysydd roedd yr Aelodau eu hunain wedi eu dewis.

Nodwyd bod sesiwn hyfforddiant ar ddulliau a rhagdybiaethau actiwaraid eisoes wedi ei gynnal a bod hyfforddiant ar sero net a llywodraethu i'w gynnal yn fuan. Ategwyd y bydd eitem gweinyddiaeth pensiwn yn cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Pwyllgor ac y bydd modd darparu hyfforddiant yn ôl y galw yn y Paneli Buddsoddi; bydd yr Aelodau hefyd yn parhau i dderbyn sesiynau hyfforddiant gan PPC, mynychu a derbyn gwybodaeth mewn nifer o gynadleddau a chael y cyfle i dderbyn hyfforddiant ar lein.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â derbyn sesiwn hyfforddiant ar Gyfalaf Naturiol, nodwyd bod y maes yma wedi ei gynnwys fel sesiwn gyda'r Panel Buddsoddi.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Hyfforddiant 2025/26

6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS AR GYFER 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn amlygu trefniant bod yr holl arian sydd dros ben yn y Gronfa, yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn.

Eglurwyd, yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2025/26, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2025/26 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar y 6ed Mawrth 2025.

Atgoffwyd yr Aelodau bod cod ymarfer CIPFA a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd cyn ceisio enillion neu'r cynnyrch uchaf, a tharo cydbwysedd gyda'r ffactorau yma. Cyfeiriwyd at y sectorau sydd wedi'u cymeradwyo i fuddsoddi ynddynt ynghyd â'r terfynau buddsoddi ar eu cyfer e.e. llywodraeth leol, awdurdodau lleol, banciau, cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun. Cyfeiriwyd at ragolygon ymgynghorwyr ariannol y Cyngor, Arlingclose a sefyllfa portffolio buddsoddi oedd gan y Cyngor ar ddiwedd 2024.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor fabwysiadu'r Datganiad Rheolaeth Trysorlys, a chadarnhau y cais i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn i barhau i gael ei gronni gydag arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Bod yr adroddiad bellach yn eitem reolaidd ar raglen waith y Pwyllgor
- Bod y trefniant eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn

Mewn ymateb i gwestiwn, o ystyried bod yr adroddiad bellach yn eitem reolaidd ar raglen waith y Pwyllgor ac felly a oedd manylion y terfynau amser / terfynau gwrthbarti a'r terfynau sector wedi eu hadolygu, nodwyd bod y wybodaeth yn cael ei adolygu yn flynyddol gyda phob ffigwr yn cael ei addasu yn briodol.

PENDERFYNWYD:

- **Mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys atodol am 2025/26, fel ei addaswyd i bwrpas Cronfa Bensiwn Gwynedd**
- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yn gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o'r 1 Ebrill 2025 ymlaen.**

7. GOSOD RHAGDYBIAETHAU AR GYFER PRISIAD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlinellu gosodiad rhagdybiaethau ar gyfer prisiad 2025 Cronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y disgwyliad oes ariannol, disgwyliad oes, a rhagdybiaethau demograffig eraill sydd rhaid i'r Gronfa eu gwneud, a bod y rhagdybiaethau hyn wedi eu gosod gan Actiwari'r Gronfa wedi trafodaethau a sesiwn hyfforddi gyda Swyddogion ac Aelodau'r Pwyllgor. Amlygwyd bod perthnasedd y rhagdybiaethau presennol wedi cael eu hystyried cyn cyflwyno newidiadau fyddai'n adlewyrchu nodweddion penodol y Gronfa a chymryd barn hirdymor iawn. Ategwyd bod y rhagdybiaethau hefyd yn cadw at ganllawiau CPLIL sy'n gofyn am ddoethineb yn y gyfradd ddisgownt, tra bod y rhagdybiaeth eraill yn amcangyfrifon gorau posib.

Yng nghyd-destun rhagdybiaethau ariannol, amlygwyd newidiadau sylweddol mewn amodau economaidd ers prisiad 2022, oedd yn cynnwys cyfraddau llog uwch, chwyddiant uwch na'r disgwyl, a mwy o anweddolrwydd (volatility) yn y farchnad. Nodwyd bod risgiau gwleidyddol a hinsawdd hefyd yn cael eu crybwyll fel ffactorau dylanwadol. Ategwyd bod y gyfradd disgownt (sydd yn cynrychioli cyfradd flynyddol gyfartalog dychwelyd buddsoddiad yn y dyfodol), wedi gweld newid sylweddol yn yr amgylchedd economaidd ers 2022, sydd o ganlyniad wedi arwain at enillion buddsoddi disgwyliedig uwch yn y dyfodol, a lefelau cyllido, ond hefyd at gynydd mewn ansicrwydd. Amlygwyd mai argymhelliad yr Actiwari oedd cynyddu'r lefel bwyll ar gyfer y gyfradd ddisgownt o 75% i 80%.

Yng nghyd-destun codiadau i'r buddion ac ailbrisio y Cynllun Cyfartaledd Gyrfa, sy'n gysylltiedig â CPI, nodwyd bod y dull yn aros yr un fath â phrisiad 2022, ond yn adlewyrchu disgwyliadau chwyddiant cyfredol. Adroddwyd mai'r lefel gyfartalog o chwyddiant i'r dyfodol ar 30 Tachwedd 2024 oedd 2.3% y flwyddyn (o'i gymharu â 2.7% y flwyddyn ym mis Mawrth 2022) ac felly argymhellwyd cynnal codiadau cyflog ar CPI + 0.5%, i adlewyrchu ansicrwydd er gwaethaf disgwyliadau chwyddiant cyfredol.

Cyfeiriwyd at ragdybiaethau disgwyliad bywyd gan nodi mai'r argymhelliad oedd mabwysiadau rhagdybiaeth gyffredinol o welliant 'diofyn' yn y dyfodol, a gyda rhagdybiaethau eraill megis rhagdybiaethau demograffi, nodwyd bwriad o fabwysiadu rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth o'r Gronfa ynghyd â phrofiad aelodaeth wirioneddol y Gronfa.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw bod lefel gyllido'r gronfa erbyn hyn yn 200% ac os oedd pwynt neu lefel lle bydd gofyn stopio, nodwyd nad oedd lefel uchafswm cyn belled a bod y Gronfa yn parhau i fod yn ddarbodus. Ategwyd bod sylwadau diweddar yn y Wasg, yn herio'r hyn sydd yn rhesymol i'r trethdalwyr ei dalu i ariannu'r Gronfa (yng nghyd-destun rhai o brif gyflogwyr y Gronfa sy'n derbyn arian cyhoeddus - Cyngor Gwynedd, Môn, Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri). O ganlynaid, bydd angen cynnal trafodaethau i ymateb i'r pwysau hyn i sicrhau cydbwysedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Bod y sesiwn hyfforddi wedi bod yn ddefnyddiol gyda chyflwyniadau clir ac eglur.
- Awgrym i gynnal sesiynau cyffelyb i'r dyfodol wrth wneud penderfyniadau

- Bod y Gronfa mewn sefyllfa iach
- Bod ystod eang o ragdybiaethau a ffigyrau cadarn i'w cefnogi

PENDERFYNWYD:

- **Cymeradwyo'r gosodiad rhagdybiaeth ar gyfer prisiad Cronfa Bensiwn Gwynedd 2025.**
- **Croesawu'r sesiwn rhannu gwybodaeth gyda Hymans**

8. ADBORTH O GYNHADLEDD LLYWODRAETHU'R LGA

Cyflwynwyd adborth a chrynodeb o eitemau allweddol a drafodwyd yng Nghynhadledd Llywodraethu'r LGA (Bournemouth mis Ionawr 2025) gan y Cyng. Ioan Thomas (Is-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau) a Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau). Adroddwyd bod y digwyddiad wedi bod yn fuddiol iawn a nodwyd y materion isod fel meysydd sydd angen sylw gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yn dilyn derbyn gwybodaeth yn y Gynhadledd.

- Lleihau Nifer Pwlliau - pryder nad yw Cymru yn ddiogel fel un pwl i'r dyfodol yn sgil adolygiad 'Fit for the Future' gan Lywodraeth y DU i niferoedd pwlliau.
- Bod angen sicrhau bod gwaith y prisiad yn dechrau yn fuan gyda digon o ymgysylltu ar y strategaeth
- Bod angen sicrhau bod y dangosfyrddau yn barod erbyn Hydref 2025
- Nodyn cyffredinol - bod amryw o Gynghorau yn anfon nifer o aelodau i'r gynhadledd a chais i Wynedd gynnig cyfle i Aelod o'r Bwrdd Pensiwn fynychu.

Diolchwyd am yr adborth.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd yng nghyd-destun yr adolygiad 'Fit for the Future' i leihau niferoedd pwlio, bod Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cyflwyno Cynllun Busnes i'r Llywodraeth oedd yn cynnig ffordd ymlaen. Ategwyd, o'r adborth answyddogol sydd wedi ei dderbyn i'r ymgynghoriad presennol yma, y bydd PPC yn gallu aros fel un cwmni buddsoddi i Gymru. Ategwyd, er nad oedd adborth ffurfiol i'r Cynllun Busnes wedi ei dderbyn, bod ffyrddau gwaith yn cael eu paratoi yn y cefndir i sefydlu cwmni.

Wrth ymateb i'r sylw am waith y prisiad, nodwyd, er bod y broses yn un hir bod y gwaith ymgynghori eisoes wedi dechrau a bod Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn sesiwn hyfforddiant ar ddulliau a rhagdybiaethau actiwaraid.

Mewn ymateb i'r angen i sicrhau bod y dangosfyrddau yn barod erbyn Hydref 2025, nodwyd bod y Gronfa wedi bod yn cydweithio gyda chwmni Heywood Pension Technologies i sefydlu'r dangosfyrddau a bod y system bellach mewn cyfnod prawf. Ategwyd pan fydd y dangosfyrddau cyhoeddus yn mynd yn fyw, bydd Gwynedd yn barod i gysylltu.

Diolchwyd am yr ymateb i'r sylwadau a diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith da, amserol ac am eu hagwedd rhagweithiol.

PENDERFYNWYD:

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth

Nodyn:

Aelod o'r Bwrdd Pensiwn hefyd i fynychu'r gynhadledd i'r dyfodol

9. CRYNODEB O DDADANSODDIAD BWLCH PENSIWN RHYW

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiwnau adroddiad oedd yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad diweddar a gynhaliwyd gan Hymans Robertson ar ddata aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd (data 2024/25) fel rhan o archwiliad Bwlch Pensiwnau Rhywedd, sef y gwahaniaeth rhwng incwm ymddeol dynion ac incwm ymddeol merched. Nodwyd bod y gwahaniaeth yn cael ei fesur yn ôl y gwahaniaeth mewn cyfoeth ar ôl ymddeol, gan gynnwys eitemau fel eiddo.

Cyfeiriwyd at ganfyddiadau allweddol y dadansoddiad oedd yn cadarnhau bodolaeth Bwlch Pensiwn Rhywedd ac anghyfartaledd mewn symiau pensiwn pensiwnwyr cyfredol ac Aelodau actif. Tynnwyd sylw at y ffactorau hynny sydd yn cyfrannu at y bwlch ynghyd â'r argymhellion sydd yn cael eu hawgrymu i fynd i'r afael â'r bwlch yn llawn. Nodwyd, er derbyn bod angen newidiadau a gweithredu ar lefel genedlaethol, bod modd gweithredu rhai camau ar lefel lleol hefyd, gyda'r cyflogwyr, yn hytrach na'r Gronfa Bensiwn yn arwain ar y materion hyn. Ategwyd, ymysg y gwaith sydd angen ei wneud, bod rhaid adolygu polisïau, patrymau gwaith ac addysgu merched yn well ar oblygiadau cyfnod mamolaeth.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau

- Bod angen mwy o degwch i ferched mewn gwaith
- Rhaid lleihau'r gwahaniaethau
- Bod angen tynnu sylw at y canfyddiadau - awgrym i gyflwyno'r wybodaeth i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol
- Wrth werthuso swyddi, bydd rhaid ystyried gogwydd rhywedd
- Beth yw'r rhagamcanion i'r dyfodol?
- Bod anghyfiawnder pendant yma - angen cynnal sgysiau gyda'r cyflogwyr
- Bod angen diweddariad ymhen chwe mis o'r hyn sydd wedi ei weithredu

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Pensiwnau mai'r cam cyntaf fydd cynnal trafodaeth gyda Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd a cheisio gweld sut bydd modd ymateb i'r canfyddiadau yn lleol.

PENDERFYNWYD

- **Bod angen mynd i'r afael â'r bwlch pensiwn rhyw yn llawn**
- **Er derbyn bod angen newidiadau a gweithredu ar lefel genedlaethol, bod modd gweithredu rhai camau ar lefel lleol hefyd, gyda'r cyflogwyr, yn hytrach na'r gronfa pensiwn yn arwain ar faterion megis,**
 - **Adolygu proffiliau swyddi a graddfeydd cyflog er mwyn sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol ar draws y sbectrwm llawn.**
 - **Gwirio bod polisïau dychwelyd i'r gwaith, gan gynnwys gweithio hyblyg, yn cefnogi ac yn annog pobl sydd wedi cymryd seibiannau gyrfa yn ôl i'r gweithle.**
 - **Cyflwyno neu wella polisïau absenoldeb rhiant a rennir.**
 - **Addysgu gweithwyr am oblygiadau ar gyfer eu pensiwn unrhyw bryd y mae newid pwynt bywyd a allai arwain at ganlyniadau ariannol.**
 - **Gadael i aelodau newydd a gweithwyr rhan-amser wybod y gallant optio i mewn i'r cynllun pensiwn, hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso**
- **Cyflwyno'r wybodaeth i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol**
- **Derbyn diweddariad ymhen 6 mis ar y camau gweithredu (lefel lleol)**

10. **POLISIÂU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN**

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau adroddiad oedd yn cyflwyno chwe pholisi gweinyddol allweddol i'r Pwyllgor eu harchwilio. Nodwyd bod y polisiâu yn hanfodol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r gronfa bensiwn yn effeithiol ac yn gam sylweddol tuag at lywodraethu da. Ategwyd, bod y Bwrdd Pensiwn wedi adolygu'r polisiâu a bod eu sylwadau wedi eu hadlewyrchu yn y fersiynau gerbron y Pwyllgor.

Trafodwyd y Polisiâu yn unigol gan roi cefndir a chyd-destun bob un i'r Aelodau

Polisi Prawf Bywyd i Bensiynwyr sy'n Byw Dramor
Polisi Gordaliad Pensiwn
Polisi Iaith Gyfathrebu
Polisi Dosbarthu Dogfennau Cronfa Bensiwn Gwynedd
Polisi Cyhoeddi Slip Cyflog y Gronfa Bensiwn
Polisi Talu Buddion Pensiwn a Lwmp Swm i Aelodau

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith o ffurfioli'r polisiâu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ar angen i gyfiawnhau talu mewn i gyfrifon yn enw'r aelodau yn unig ac os oedd problemau wedi codi o'r penderfyniad i wneud hyn, nodwyd bod y drefn wedi ei gweithredu yn llwyddiannus hyd yma a bod eithriad mewn lle os yw'r cyfrif yn cael ei ddal gan unigolyn sydd â Phŵer Atwrnai dilys ar gyfer yr aelod.

Mewn ymateb i bryder bod y drefn yn tueddu i symud at drefn ddigidol, amlygwyd bod aelodau yn cael dewis opsiwn papur os ydynt yn dymuno.

PENDERFYNIAD:

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Cymeradwyo mabwysiadu'r polisiâu isod o'r 1af o Ebrill 2025**
 - **Polisi Prawf Bywyd i bensiynwyr sy'n byw dramor**
 - **Polisi Gordaliad Pensiwn**
 - **Polisi Iaith Gyfathrebu**
 - **Polisi Dosbarthu Dogfennau Cronfa Bensiwn Gwynedd**
 - **Polisi Cyhoeddi Slip Cyflog y Gronfa Bensiwn**
 - **Polisi Talu Buddion Pensiwn a Lwmp Swm i Aelodau**

Dechreuodd y cyfarfod am 15:00 a daeth i ben 16:00

.....
CADEIRYDD

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	12 MEHEFIN 2025
TEITL:	CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS:	I gymeradwyo'r Cynllun Busnes
ARGYMHELLIAD:	CYMERADWYO'R CYNLLUN BUSNES
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi diweddarau ei Gynllun Busnes ac eisiau derbyn cymeradwyaeth gan y pwyllgorau unigol o fewn y bartneriaeth.

Cafodd y Cynllun Busnes ei gymeradwyo gan y Cyd- Bwyllgor Llywodraethu ym mis Mawrth 2025 ac mae bellach wedi'i ddiwygio i ddangos costau dylunio a galluogi Prosiect Wyddfa, ble derbyniwyd cymeradwyaeth yn ei gyfarfod 4ydd o Fehefin 2025.

2. CYNLLUN BUSNES

Mae cynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae'r bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau. Mae'r cynllun busnes yn cael ei fonitro'n gyson ac yn cael ei adolygu a'i gytuno'n ffurfiol bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC
- Amlinellu'r blaenoriaethau a'r amcanion dros y tair blynedd nesaf
- Cyflwyno polisiau a chynlluniau'r Bartneriaeth
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC

Ceir wybodaeth o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y bartneriaeth yn ystod 2025- 2028 a gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni ei amcanion.


Mae'r Cynllun Busnes ynghlwm ar gyfer eich adolygiad yn Atodiad 1.

3. ARGYMHELLIAD

Bod y Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo.



Partneriaeth Pensiwn Cymru Cynllun Busnes Diwygiedig 2025 -2028



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru	3
Llywodraethu	4
Rheoli Risg	6
Amcanion	7
Credoau	8
Polisïau	9
Cynllun Gwaith	10
Cynllun Hyfforddi	12
Cyllideb	13
Buddsoddiadau a Pherfformiad	14
Manylion Cyswllt	16

Cyflwyniad

Dyma'r cynllun busnes ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ('y Bartneriaeth'), sy'n cynnwys manylion ynghylch blaenoriaethau'r Bartneriaeth a'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt yn 2025/26, 2026/27 a 2027/28. Caiff y cynllun busnes ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Egluro cefndir a strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth yn y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes
- Crynhoi Amcanion Buddsoddi a Pherfformiad y Bartneriaeth

Ynglŷn â Phartneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017, ac mae'n drefniant cydweithredol rhwng yr wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n weithredol drwy Gymru gyfan, ac mae'n un o wyth cronfa gyfun yn genedlaethol. Mae gennym hanes hir a llwyrchus o gydweithio, ac wedi bod yn gwneud hynny ers cyn i'r Llywodraeth gyhoeddi'i gynlluniau ar gyfer cyfuno gronfeydd. Rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth unigryw fel Cronfa Gyfun – mae ein Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli Cymru gyfan. Oherwydd ein hatebolrwydd democrataidd rydym yn cynnig y gorau o'r sector cyhoeddus o ran llywodraethu cryf a thryloywder.

Mae gennym ddull gweithredu sydd â'r nod o fod yn hyblyg a chyflawni gwerth am arian. Rydym wedi penodi Gweithredwr allanol i'r gronfa ac yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn manteisio ar arbenigwyr o'r radd flaenaf i gynorthwyo wrth weinyddu'r Gronfa Gyfun, ac mae'r rhain yn cynnwys Hyman Robertson a benodwyd yn Ymgynghorydd Trosolwg ar ran y Bartneriaeth. Y Gweithredwr yw Waystone Management (UK) Limited, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Russell Investments wrth ddarparu rheolaeth effeithiol dros fuddsoddiadau a rhoi sicrwydd o ran perfformiad ffioedd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gennym weledigaeth gyffredin a chytundeb o ran sut fydd y weledigaeth honno'n cael ei chyflawni, a pha mor sydyn.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad "Addas ar gyfer y Dyfodol (Fit for the Future)" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu prosiect i archwilio a gweithredu'r gofynion llywodraethu a busnes er mwyn i'r Bartneriaeth gydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth, sef prosiect a elwir yn Brosiect yr Wyddfa (Project Snowdon).

Yr wyth cronfa CPLI (Awdurdodau Cyfansoddol) Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Cronfa Bensiwn Dyfed (Cyngor Sir Gâr)
- Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe (Cyngor Abertawe)
- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (Cyngor Dinas Caerdydd)
- Cronfa Bensiwn Clwyd (Cyngor Sir y Fflint)
- Cronfa Bensiwn Gwynedd (Cyngor Gwynedd)
- Cronfa Bensiwn Powys (Cyngor Sir Powys)
- Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RhCT) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)
- Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Torfaen)

Llywodraethu

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn gyfrifol am sicrhau bod ei busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau. Rhaid sicrhau hefyd fod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol a'i ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd yn ymdrechu i gael gwelliant parhaus ac i gydymffurfio gydag arfer orau'r diwydiant.

Mae'r Bartneriaeth yn manylu ar sut mae'n ymdrin â phob agwedd o Lywodraethu drwy ei Chytundeb Rhyng-awdurdod (IAA) sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Haelodau, Pwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhyng-awdurdod yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth bresennol berthnasol. Yn unol â'i chred y dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid, mae'r Bartneriaeth wedi rhoi strwythur llywodraethu cadarn ar waith, sydd wedi cael ei ddylunio i:



Mae'r diagram a ganlyn yn dangos beth yw strategaeth lywodraethu'r Bartneriaeth:

Rheoli Risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod ei bod yn wynebu nifer o risgiau, o'u gadael heb eu rheoli, all gyfyngu ar allu'r Bartneriaeth i gyflawni ei hamcanion ac i weithredu er lles gorau ei rhan-ddeiliaid a'i buddiolwyr. Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth hefyd yn deall na ellir lleddfu rhai risgiau'n llwyr ac yn yr achosion hyn mae angen ymdrin â'r risg wrth ei reoli'n weithredol ac yn effeithiol.

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad y Bartneriaeth i lywodraethu da, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu strategaeth risg gadarn, eang a strwythuredig. Bydd y strategaeth hon yn cael ei gwreiddio yn fframwaith llywodraethu'r Bartneriaeth i sicrhau gwell penderfyniadau, gwell deilliannau i ran-ddeiliaid a gwell effeithlonrwydd.

Mae strategaeth risg y Bartneriaeth yn ceisio adnabod a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau priodol a gweithdrefnau llywodraethu yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Cred y Bartneriaeth fod natur anwadal i'r risgiau hyn ac y gall difrifoldeb a thebygolrwydd risgiau newid yn sydyn ac yn ddirybudd. I adlewyrchu'r gred hon, mae Polisi Risg y Bartneriaeth wedi cael ei ddatblygu mewn modd lle gellir rhagweld risgiau ac ymdrin â hwy mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posib i'r Bartneriaeth a'i rhan-ddeiliaid.

I gyflawni ei hamcanion, mae angen i'r Bartneriaeth gynnal gweithgareddau neu fanteisio ar gyfleoedd sy'n ei rhoi mewn risg. Bydd y graddau y gall y Bartneriaeth gydbwyso'r risg a'r adenillion yn ddibynnol ar lwyddiant ei Bolisi Risg. Cyn gwneud penderfyniadau, mae'n hanfodol fod y Bartneriaeth yn deall y risgiau perthnasol ac yn ystyried sut ellir rheoli'r risgiau hyn.

Y risg mwyaf i weithrediad parhaus y Bartneriaeth yw ei gallu i gyflawni ei phrif amcanion. Mae Cynllun Busnes y Bartneriaeth yn fodd ychwanegol i'r Bartneriaeth roi cydnabyddiaeth arbennig i risgiau sy'n peri bygythiad materol i gyflawni ei hamcanion a'r camau sydd eu hangen i reoli'r risgiau hyn.

Yn ystod cyfnod y cynllun busnes hwn bydd y Bartneriaeth yn mynd ati i ddatblygu mecanweithiau, fframweithiau a phrosesau ar gyfer rheoli'r risgiau allweddol a ganlyn:

- Darpariaeth gwasanaeth a pherfformiad ei Gweithredwr
- Perfformiad parhaus rheolwyr buddsoddi
- Cadernid strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth
- Risg sy'n gysylltiedig â Buddsoddiad Cyfrifol

Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol iawn o'r bygythiadau petai diogelwch seibr yn cael ei dorri a phwysigrwydd diogelwch data. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fel Awdurdod Lletya PPC, fframwaith cadarn ar waith i sicrhau diogelwch ei rwydwaith a'i systemau gwybodaeth. Mae gan y Cyngor hefyd Gynllun Ymateb Digwyddiad Seibr manwl, sy'n amlinellu gweithdrefnau ar gyfer paratoi, nodi, cyfyngu ac ymateb i ddigwyddiadau seibr, sicrhau parhad busnes a chadw tystiolaeth. Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cadw'r cyfrifoldeb dros ddata aelodau unigol ar gyfer eu Cronfeydd Pensiwn CPLIL eu hunain.

Amcanion

Mae'r Bartneriaeth yn falch o gynrychioli'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cydnabod ei dyletswydd i sicrhau bod anghenion a gofynion yr holl ran-ddeiliad yn cael eu diwallu. Mae'r Bartneriaeth, trwy ymgynghoriad â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi llunio rhestr o brif amcanion a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Darparu trefniadau cyd-fuddsoddi sy'n galluogi i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (pan fo hynny'n ymarferol).
- Cyflawni arbedion costau perthnasol i gronfeydd cyfranogol tra'n gwella neu'n cynnal a chadw perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd.
- Gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn i gael trosolwg o weithgarwch y cyd-fuddsoddi.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfun eraill i archwilio'r manteision y gall pob rhan-ddeilydd yng Nghymru elwa ohonynt wrth ddefnyddio datrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posib.
- Darparu fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r deilliannau gorau i'w rhan-ddeiliaid allweddol; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn medru defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun.
- Ymwreiddio'r gwaith o gyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy, hirdymor yn y broses gwneud penderfyniadau, drwy ddyrannu cyfalaf, craffu parhaus ar reolwyr asedau ac arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n codi fel perchnogion asedau.

Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod fod eu cryfder yn deillio o'r credoau sy'n gyffredin rhyngddynt a'u gallu i gydweithio i gyflawni eu hamcanion cyffredin er lles holl ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.

Credoau


Mae Credoau'r Bartneriaeth yn adlewyrchu natur gydweithredol a gwerthoedd cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol, maent fel a ganlyn:

- Rôl y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu llwyfan cyd-fuddsoddi fel cyfrwng i weithredu ddiddordebau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth
- Mae cydweithredu mewnol rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gall cydweithio allanol hefyd fod yn fanteisiol wrth ddarparu arbedion costau a gwell deilliannau i ran-ddeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i leddfu Risg Hinsawdd, ar y cyd ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol yn hanfodol i gyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn fodd cost-effeithiol o wella adnoddau, gallu ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau i'r rhan-ddeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesedd a datblygiad parhaus yn gymorth i'r Bartneriaeth a'i Hawdurdodau Cyfansoddol esblygu
- Bydd agwedd hyblyg at strwythur cyfun a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi i gronfa gyfun y Bartneriaeth addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion ei rhan-ddeiliaid.


Mae credoau'r Bartneriaeth yn sylfaen i'r fframwaith llywodraethu ac maent wedi cael eu defnyddio i lywio pob un o weithgareddau'r Bartneriaeth a'i phenderfyniadau, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.

Polisiâu

Cred y Bartneriaeth y dylai llywodraethu da arwain at well deilliannau i ran-ddeiliaid y Bartneriaeth. I gydnabod y gred hon, mae'r Bartneriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu strwythur a fframwaith llywodraethu cadarn a chyfres o bolisiâu llywodraethu. Ym mhob achos, mae polisiâu a gweithdrefnau'r Bartneriaeth wedi cael eu datblygu i un ai gyfrannu neu ychwanegu at weithdrefnau a pholisiâu presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall pwysigrwydd llunio a chyfundrefnu ei pholisiâu a'i gweithdrefnau. Mae'r broses hon yn caniatáu i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol:



Isod, ceir rhestr o bolisiâu allweddol, cofrestrï a chynlluniau'r Bartneriaeth, a gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth:



Adolygir dogfennau'r Bartneriaeth hon yn rheolaidd, a bydd y Bartneriaeth yn cynnal asesiadau parhaus i bennu a oes gofyn am bolisiâu, cofrestrï neu gynlluniau ychwanegol. Mae'r polisiâu'n chwarae rôl hanfodol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth ac maent wedi'u llunio gyda'r unig fwrdd o ddarparu fframwaith sydd wedi'i gyfundrefnu fydd yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion mewn modd effeithiol a thryloyw.

Cynllun Gwaith

Mae'r tabl isod yn dangos blaenoriaethau ac amcanion allweddol y mae'r PPC yn anelu at eu cwblhau dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun gwaith wedi'i rannu'n nifer o adrannau allweddol sydd oll yn hanfodol i lwyddiant parhaus PPC

- **Llywodraethu** - Mae'r Bartneriaeth o'r farn bod llywodraethu da yn arwain at well canlyniadau i'w rhanddeiliaid, felly bydd yn dal ati i ddatblygu ei fframwaith llywodraethu drwy gynnal adolygiadau parhaus o'i dogfennau llywodraethu a'i strwythur presennol.
- **Datblygiadau'r Rhaglen Fuddsoddi Barhaus** – Hyd yma mae'r Bartneriaeth wedi cyfuno tua 74% o'i hasedau ac mae nifer o Rhaglenni Fuddsoddi eraill yn y broses o gael eu datblygu. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod yr holl asedau addas yn cael eu cyfuno.
- **Gwasanaethau Gweithredwyr** - Mae'r Gweithredwr, ar y cyd â'r trydydd partïon a cyflogir ganddo ar ran y Bartneriaeth, yn hanfodol i weithgareddau parhaus y Bartneriaeth, felly mae darparu gwasanaeth y Gweithredwr a chyflenwyr trydydd parti eraill yn hanfodol.
- **Adrodd am Fuddsoddi** - Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod atebion buddsoddi presennol yn parhau yn optimal ac yn cyd-fynd â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol, gan hefyd gyflawni disgwyliadau dychwelyd buddsoddiad yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i gyflawni ei gofynion adrodd sy'n cwmparu meysydd fel perfformiad buddsoddi, risg, gweithgareddau Stiwardiaeth, Buddsoddi Cyfrifol a'r Hinsawdd, a bydd yn datblygu adroddiadau pellach, yn ôl yr angen.
- **Cyfathrebu a Hyfforddiant** - Mae'r Bartneriaeth eisiau sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol a phartïon allanol yn ymwybodol o gynnydd y Bartneriaeth ac mae yn cyhoeddi nifer o adroddiadau a diweddariadau i sicrhau ei bod yn cyfathrebu'r cynnydd i'r rhanddeiliaid yn rhagweithiol. Gellir gweld y rhain i gyd ar wefan y Bartneriaeth.
- **Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd** - Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod adnoddau annigonol yn peri risg arwyddocaol i'w gallu i ddarparu fframwaith buddsoddiadau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'w rhanddeiliaid allweddol, a bydd y Bartneriaeth yn ymgymryd â sawl adolygiad i sicrhau bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Gwaith i'w gwblhau	2025 - 2026	2026 - 2027	2027 - 2028
Llywodraethu			
Proses gaffael darparwyr Gwasanaethau Cyfreithiol	✓		
Cyflawni Prosiect yr Wyddfa	✓	✓	
Adolygiad blynyddol o bolisiâu a chynlluniau'r Bartneriaeth	✓	✓	✓
Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	✓	✓	✓
Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad	✓	✓	✓
Datblygiadau'r Rhaglen Fuddsoddi Barhaus			
Lansio'r rhaglen buddsoddi eiddo tirol	✓		

Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol	✓	✓	✓
Ystyried cyfleoedd a gofynion PCC yn y DU, lleol / effaith	✓	✓	✓
Esblygiad Cronfeydd Ecwiti, Incwm Sefydlog a Goddefol cyfredol	✓	✓	✓
Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen	✓	✓	✓
Gwasanaethau Gweithredwyr			
Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa	✓	✓	✓
Adrodd am Fuddsoddi			
Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat	✓		
Adroddiadau Cod Stiwardiaeth	✓	✓	✓
Datblygu, gweithredu ac adrodd parhaus ar yr holl weithgareddau stiwardiaeth	✓	✓	✓
Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD	✓	✓	✓
Adroddiadau sy'n gysylltiedig â natur / TNFD	✓	✓	✓
Cyfathrebu ac adrodd parhaus ar weithgarwch Buddsoddi Cyfrifol i'r holl randdeiliaid	✓	✓	✓
Adrodd parhaus ar fuddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd Is-gronfeydd	✓	✓	✓
Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol o ran safonau ESG ac uchelgeisiau hinsawdd i diwallu anghenion sy'n esblygu	✓	✓	✓ (
Cyfathrebu a Hyfforddiant			
Llunio Adroddiad Cynnydd Buddsoddi Cyfrifol Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Llunio Cynllun Hyfforddi Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Llunio Diweddariad Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Llunio Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Adnoddau, Cyllideb a Ffioedd			
Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu	✓	✓	✓
Llunio Cyllideb Flynyddol y Bartneriaeth	✓	✓	✓
Adolygu a Monitro ffioedd Gweithredwr / darparwyr allanol	✓	✓	✓

Cynllun Hyfforddi

Yr arfer orau yw i staff y Bartneriaeth gael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ynghylch:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- chyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth i ategu cynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar y lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth o ran cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth. Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrices llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol i ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor Llywodraethu; fodd bynnag, anogir Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Byrddau Pensiwn, os ydynt yn credu y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hyn.

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu hyfforddiant ar eu cyfer yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Mae pynciau hyfforddi PPC yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol PPC ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ('CBLI') a Gweithgor Swyddogion ('GS').

Gwybodaeth am Gynnyrch:

- Dosbarthiadau asedau Credyd Preifat a Seilwaith
- Buddsoddiadau Lleol / Effaith o fewn dosbarthiadau asedau Marchnadoedd Preifat

Stiwardiaeth:

- Pleidleisio ac Ymgysylltu
- Cod stiwardiaeth a gofynion adrodd

Buddsoddiad Cyfrifol (RI):

- Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol
- Senarios Hinsawdd a Dyletswydd Ymddiriedol

Ymgynghoriad Pwlio a Gofynion Rheoleiddio

- Ymgynghoriad Pwlio
- Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd

Cyllideb

Mae'r tabl isod yn nodi cyllideb y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf.

	Rhagolwg alldro 2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
	£'000	£'000	£'000	£'000
Awdurdod Lletya	186	241	247	253
Ymgynghorwyr Allanol	1,270	1,376	1,288	1,288
Prosiect yr Wyddfa (gweler isod)	470	2,915	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
CYFANSWM i'w ail-godi *	1,926	4,532	1,535	1,541
Gwasanaethau Gweithredwr	39,922	46,110	50,721	55,793
Dylanwr	7,094	9,673	10,844	10,844
CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau **	47,016	55,783	61,565	66,637

*Ariennir costau'r Awdurdod Lletya a'r Ymgynghorydd Allanol gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol y Bartneriaeth yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.

**Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dylanwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth (sydd ym meddiant y Gweithredwr) ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol (sydd ym meddiant y Gweithredwr).

Cyllideb Project Snowdon 2025/26

Mae sefydlu Cwmni Rheoli Buddsoddiadau (IMCo) y PPC yn cynnwys costau sefydlu a chostau rhedeg parhaus. Mae'r WPP wedi amcangyfrif cyllideb prosiect o oddeutu £2.9 miliwn* ar gyfer cyflawni'r prosiect, sy'n cwmpasu cynghorwyr cyfreithiol, cymorth cydymffurfio arbenigol, ymgynghorwyr buddsoddi, a rheolwyr prosiectau, yn ogystal â chostau cyflog personél IMCo a gyflogwyd cyn mis Mawrth 2026.

Buddsoddiadau a Pherfformiad

Cyfanswm asedau Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth yw tua £25 biliwn (fel yr oedd hi ar 31 Mawrth 2024). Mae buddsoddiadau goddefol yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gorwedd yn y Gronfa Gyfun i bob pwrpas, ond maent yn aros ym meddiant yr awdurdodau perthnasol ar ffurf polisïau yswiriant.

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn derbyn adroddiadau perfformiad pob chwarter, pob chwe mis a phob blwyddyn, ac mae'r Grŵp yn adolygu a herio perfformiad y Rheolwyr Buddsoddiadau ar ran y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal diwrnodau ymgysylltu â rheolwyr yn flynyddol, a defnyddir y rhain i herio rheolwyr a hwyluso ymgysylltu ag Aelodau Pwyllgorau yr Awdurdodau Cyfansoddol, a Rheolwyr Buddsoddiadau'r Bartneriaeth. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn gwneud eu dadansoddiadau lleol eu hunain o berfformiad buddsoddiadau'r Bartneriaeth, a bydd hynny'n golygu y bydd rheolwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Pensiynau.

Mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiad cyfnodol o holl is-gronfeydd PPC, a chyflwynir y canlyniadau i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r isod yn amlinellu Is-gronfeydd y Bartneriaeth ar hyn o bryd.

Is-gronfeydd Ecwiti

<u>Cronfa Twf Byd-eang</u> Rheolir gan Russell Investments ers Tachwedd 2024	<u>Cronfa Cyfleoedd Byd-eang</u> Rheolir gan Russell Investments	<u>Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol</u> Rheolir gan Russell Investments	<u>Cronfa Marchnadoedd Datblygol</u> Rheolir gan Russell Investments	<u>Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy</u> Rheolir gan Russell Investments
---	---	--	---	--

Is-gronfa	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol	Dyddiad Lansio	Dyddiad Adolygu
Twf Byd-eang	MSCI ACWI ND	Rhondda Cynon Taf, Dyfed, Gwynedd, Caerdydd a Phowys	Baillie Gifford, Pzena, Pinestone a Numeric	Chwefror 2019	Tachwedd 2021
Cyfleoedd Byd-eang	MSCI ACWI ND	Abertawe, Torfaen, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd	Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, Nissay, Intermede ac Oaktree	Chwefror 2019	Cynlluniwyd ar gyfer 2025
Cyfleoedd y DU	FTSE All Share	Caerdydd a Thorfaen	Baillie Gifford, Ninety-One, J O Hambro, Liontrust a Fidelity	Medi 2019	Cynlluniwyd ar gyfer 2025
Marchnadoedd Datblygol	MSCI Marchnadoedd Datblygol + 1.5%	Caerdydd, Gwynedd, Powys a Torfaen	Artisan, Bin Yuan, Barrow Hanley, Axiom, Numeric ac Oaktree	Hydref 2021	Mawrth 2024

Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	MSCI ACWI ND	Caerdydd, Clwyd, Dyfed, Gwynedd, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen	Sparinvest, Mirova, Neuberger Berman, a Wellington	Mehefin 2023	Cynlluniwyd ar gyfer 2026
-------------------------------------	--------------	--	--	-----------------	---------------------------------

Is-gronfeydd Incwm Sefydlog



Is-gronfa	Meincnod perfformiad	Cronfeydd Cyfranogol	Rheolwyr Buddsoddi Sylfaenol	Dyddiad Lansio	Dyddiad Adolygu
Credyd Byd-eang	Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)	Caerdydd, Dyfed, Gwynedd, Powys a Thorfaen	Metlife, Fidelity, Coolabah a Robeco	Gorffennaf 2020	Ebrill 2023
Llywodraeth Byd-eang	FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged)	Caerdydd a Thorfaen	Bluebay a Colchester	Gorffennaf 2020	Ebrill 2023
Credyd aml-ased	3 Month GBP SONIA plus 4%	Caerdydd, Clwyd, Gwynedd, Powys ac Abertawe	ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya	Gorffennaf 2020	Mawrth 2024
Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt	3 Month GBP SONIA plus 2%	Caerdydd, Powys ac Abertawe	Wellington, Aegon, Oaktree a DNCA	Medi 2020	Mawrth 2024
Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol	ICE BofA ML Eur-Stg plws 0.65%	Rhondda Cynon Taf	Fidelity	Gorffennaf 2020	Mawrth 2024

Marchnadoedd preifat



Manylion Cyswllt

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am rywbeth yn y cynllun busnes hwn neu rywbeth sy'n gysylltiedig ag ef, mae croeso ichi gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Drwy'r Post – Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyngor Sir Gâr

Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn

Neuadd y Sir

Caerfyrddin

SA31 1JP

E-bost – Partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn - (01267) 224136

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r newyddion diweddaraf ynglŷn â chynnydd drwy fynd i'r wefan a'r dudalen LinkedIn.

Dyma gyfeiriad y wefan:

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>



CYFARFO:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	12 MEHEFIN 2025
TEITL:	CPLIL: ADDAS I'R DYFODOL – CYFLWYNIAD PPC I'R LLYWODRAETH
AWDURON:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

Y penderfyniad a geisir

Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2025):

1. Nodi Achos busnes PPC Addas i'r Dyfodol (Atodiad 3, Atodiad 4 ac adran 4)
 2. Cymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy'n berchnogaeth llwyr i Awdurdodau Gweinyddu PPC a fydd yn cael ei adnabod yn Gwmni Rheoli PPC (IMCo.) a'r holl gamau eraill sy'n angenrheidiol i gyflwyno cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar gyfer awdurdodi'r IMCo. gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis a recriwtio Swyddogaethau Uwch Reolwyr (SMF) fel sy'n ofynnol gan yr FCA a pharatoi a chyflwyno'r cais i'r FCA. (Adran 5)
 3. Cymeradwyo Cynllun Busnes a chyllideb ddiwygiedig PPC 2025/28 sy'n cynnwys costau dylunio/galluogi ar gyfer Prosiect yr Wyddfa (Atodiad 5 ac Adran 6)
 4. Dirprwyo'r hawl i'r S151 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i fwrw ymlaen gyda Prosiect Wyddfa gyda Awdurdodau Gweinyddu PPC yn unol ag amserlen y Llywodraeth o fewn y gyllideb gymeradwy.
 5. Dirprwyo cymeradwyaeth derfynol y dogfennaeth ffurfiol derfynol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r ImCo, a ddisgrifir fel 'Mynd yn Fyw' fel yr amlinellir yn Adran 7, i'r Pwyllgor Pensiynau i roi effaith i Achos Busnes PPC Addas i'r Dyfodol.
-

1 Cefndir

- 1.1 Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig sy'n gweithredu er budd ei weithlu aelodau sy'n gweithio i awdurdodau lleol ac ystod o gyrrff cyflogaeth a drefnwyd a derbyniwyd yn Lloegr a Chymru. Mae'r cynllun yn cael ei redeg ar wahân gan 87 Awdurdod Gweinyddu (AG), yn unol â deddfwriaeth a osodwyd gan Lywodraeth San Steffan.
- 1.2 Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd werth £3.2 biliwn o asedau a

rhagwelir y bydd yn cael ei ariannu dros 150% yn y prisiad teirblynyddol yn 2025. Mae dros 53,000 o aelodau yn rhan o'r Gronfa ac mae 46 o gyflogwyr yn y cynllun. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn ei Hadroddiad Blynyddol yma:

[Adroddiad Blynyddol 2024 Cymraeg](#)

- 1.3 Yn 2015, amlinellodd y Canghellor (ar y pryd) ei ddisgwyliadau bod yr 87 awdurdod gweinyddu yn ffurfio nifer llai o Bŵl Asedau (ar gyfer dibenion rheoli buddsoddi yn unig) ar sail wirfoddol, gyda'r bwriad o wella arbedion effeithlonrwydd, dileu arbedion oherwydd maint, gwella deilliannau buddsoddi ac annog buddsoddi mewn isadeiledd y DU a rhoi asedau mewn nifer llai o gronfeydd asedau mwy.
- 1.4 Roedd yr 8 pŵl a ffurfiwyd o ganlyniad i hynny yn dod o ardaloedd sy'n ddaearyddol agos, (gydag ychydig o eithriadau):
- Llundain CIV - 33 cronfa Bwrdeistref Llundain
 - Canolbarth - 8 cronfa yng Nghanolbarth Llundain
 - Access - 11 cronfa Sir Gartref
 - Brunel - 10 cronfa yn ne-orllewin Lloegr
 - Gogledd - 3 cronfa fawr yn y Gogledd
 - Border to Coast (B2C) - 11 cronfa gogledd-ddwyrain Lloegr a'r Sir Ddeheuol
 - Partneriaeth Pensiwn Lleol (LPP) - LPFA, Swydd Gaerhirfryn a Berkshire
 - Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), yn cynnwys yr wyth cronfa hyn yng Nghymru:
 - Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
 - Cronfa Bensiwn Clwyd
 - Cronfa Bensiwn Dyfed
 - Cronfa Bensiwn Gwynedd
 - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
 - Cronfa Bensiwn Powys
 - Cronfa Bensiwn Gwent (Torfaen)

Sefydlwyd yr wyth pŵl uchod mewn gwahanol ffyrdd gan fabwysiadu gwahanol ddulliau gweithredu, lle'r oedd ambell bŵl yn adeiladu ei IMCo. a reoleiddir gan yr FCA eu hunain, dewisodd eraill, megis PPC, i logi'r isadeiledd oedd yn angenrheidiol i gronni asedau eu cronfeydd partner. Penderfynodd PPC, ar ôl gwerthuso eu holl opsiynau, mai'r dewis gorau oedd ymgysylltu â phartneriaid strategol allweddol i gyflawni'r isadeiledd Cronni a fframwaith rheoleiddiol/cydymffurfiaeth gyda chefnogaeth Partner Cynghori Buddsoddi. Ni ffurfiodd Gwmni Rheoli Buddsoddi a reoleiddir gan yr FCA.

- 1.5 Mae PPC yn gydweithrediad daearyddol o wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru.
- 1.6 Nid oedd cydweithrediad ar draws wyth cronfa bensiwn CPLIL yn newydd yng Nghymru, gyda hanes hir, llwyddiannus o gyd-weithio. Hynny ar ôl nodi yn ei adroddiad "Welsh LGPS - Working Together" yn

2013, bod dull ar y cyd yn gallu cyflawni'r arbedion o ran maint, effeithlonrwydd gweithredol a gwell deilliannau buddsoddi y mae cronfeydd sylfaenol yn dymuno eu cael, ac yn gatalydd i adnabod buddsoddiadau lleol a sefydlu buddsoddi cyfrifol a pholisïau eraill.

- 1.7 Roedd yr achos busnes strategol ar gyfer yr wyth CPLIL yng Nghymru i ffurfio pŵl buddsoddi wedi'i seilio ar sylfeini cadarn y berthynas waith agos oedd eisoes yn bodoli. Hefyd, yn bwysig iawn, roedd hyn yn cynnig cyfle i sefydlu pŵl buddsoddi i Gymru, gan adlewyrchu'r nodweddion cenedlaethol a diwylliannol unigryw o genedl ddatganoledig, a'r cyfle i wneud gwahaniaeth ar gyfer y rhanddeiliaid CPLIL yng Nghymru. O safbwynt ymarferol, roedd y cynnig pendant yn mynd i'r afael â'r rhwymedigaethau rheoleiddio ynghylch Deddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r drefn archwilio bendant yng Nghymru.
- 1.8 Roedd sefydlu a strwythuro PPC yn ffurfiol yn 2017 yn cydymffurfio'n llawn â meini prawf y Llywodraeth ar y pryd, ac yn bodloni gofynion strategol wyth cronfa bensiwn y CPLIL yng Nghymru. Gwelir hyn yn y fframwaith cynrychioladol, llywodraethu agored a gweithredol a sefydlwyd. Roedd y model wedi ymrwymo'n llawn i ddenu sgiliau ac arbenigedd y farchnad, gan ddefnyddio pensaernïaeth y pŵl a'r gallu i reoli buddsoddiad wrth arfer ei statws fel buddsoddwr ar raddfa fawr i ddarparu arbedion ffioedd a buddion gweithredol i'r cronfeydd sylfaenol.
- 1.9 Mae strwythur llywodraethu corfforaethol PPC ffurfiol ar waith, sy'n cael ei gydnabod yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) rhwng pob un o'r 8 Awdurdod Gweinyddu. Mae pob AG sylfaenol yn cael ei gynrychioli ar Gyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLI) PPC sy'n gwneud penderfyniadau, a hynny gan Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn berthnasol. Mae Gweithgor Swyddogion (GS) sy'n cynnwys Swyddogion S151 ac Ymarferwyr Cronfa Bensiwn yn cefnogi ac yn cynghori'r Cyd-bwyllgor.
- 1.10 Ers hynny, gwelwyd bod y PPC yn gweithredu'n effeithlon a hynny gan y cynnydd ystyrion a phragmatig y mae'r pŵl wedi'i gyflawni yn y blynyddoedd dilynol, o ran cyflymder a graddfa cronni'r asedau, datblygu cynnig cronfa y mae cronfeydd sylfaenol yn dymuno buddsoddi ynddynt a sicrhau bod cymaint â phosibl o gronfeydd partner yn chwarae rhan. Mae PPC hefyd wedi datblygu llu o fframweithiau a pholisïau buddsoddi i allu cyflawni'r strategaethau hyn, ac yn fwy diweddar, wedi ffurfio ei gynigion cronfa marchnad breifat yn ofalus i sicrhau mewnfuddsoddi effaith a lleol fwyaf i Gymru. Dyma'r llwyddiannau sylweddol hyd yma:
 - Dros 70% o asedau wedi'u pŵlio
 - Llywodraethu cadarn a chydweithio cyson rhwng yr Awdurdodau Gweinyddu yng Nghymru
 - Cyflawni arbedion ffioedd o (isafswm) £40m
 - Cerbydau cyd-fuddsoddi pwrpasol ar gyfer buddsoddwyr PPC
 - Sefydlu ystod o 10 is-gronfa rhestredig aml-reolwr gydag amryw o fuddsoddwyr
 - Ffurio cronfeydd marchnad breifat mewn Dyledion Preifat,

Isadeiladwaith, Ecwiti Preifat ac Eiddo Tirol

- Gwasanaethau Rheoli a Gweithredu Portffolio Dirprwyedig ar draws asedau rhestredig a marchnadoedd preifat
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol, Polisi Stiwardiaeth ac Ymgysylltu, Fframwaith Rheoli Risg
- Sefydlu grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Defnyddio cyfalaf yn effeithiol yn lleol/cenedlaethol (Cymru) (drwy fuddsoddi mewn seilwaith adnewyddadwy, tai fforddiadwy, storio batris, cyfalaf naturiol (coedwigaeth)).

2

Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Lansiodd y Llywodraeth Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' ei Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar 14 Tachwedd 2024:

[Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol \(Cymru a Lloegr\): Fit for the future - GOV.UK](#)

yn amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r gwaith o reoli buddsoddiadau CPLIL mewn tri maes allweddol:

1. Diwygio cronfeydd asedau'r CPLIL
2. Hybu buddsoddiad y CPLIL mewn ardaloedd lleol a rhanbarthau yn y DU,
3. Cryfhau llywodraethiant Awdurdodau Gweinyddu y CPLIL a chronfeydd y CPLIL.

Gwahoddwyd yr holl randdeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 16 Ionawr 2025. Gofynnwyd hefyd i'r wyth pŵl CPLIL a sefydlwyd yn genedlaethol (7 yn Lloegr ac 1 yng Nghymru) gyflwyno Achos Busnes yn amlinellu sut gallant gwrrdd â meini prawf angenrheidiol y Llywodraeth o ran meysydd 1 a 2 uchod, a'u cyflawni yn unol â'r dyddiad cau, sef 31 Mawrth 2026. Y dyddiad cau i gyflwyno'r achosion busnes hyn oedd 28 Chwefror 2025. Nodwyd gan weision Sifil y Llywodraeth y bydd rhaid cynnwys deddfwriaeth galluogi CPLIL sy'n amlinellu'r gofynion cyfreithiol o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori o fewn y Bil Pensiynau yn ddiweddarach eleni (gellir ychwanegu ato ymhellach gyda rheoliadau ac arweiniad statudol).

- 2.2 Dechreuodd PPC yr hyn sydd bellach yn cael ei alw yn Brosiect Wyddfa i lunio Achos Busnes (Atodiad 3, Atodiad 4 ac Adran 4 o'r adroddiad hwn) er mwyn ymdrin â'r cwestiwn sylfaenol a godwyd gan yr ymgynghoriad, sef, naill ai:

i) adeiladu ei IMCo. PPC ei hun a chadw ei Bŵl Rheoli Buddsoddi annibynnol ei hun?

neu

ii) uno â phŵl CPLIL arall yn Lloegr?

- 2.3 Daeth PPC i'r casgliad mai'r hyn fyddai orau i'r holl randdeiliaid uniongyrchol ac ehangach yng Nghymru oedd bod PPC yn mynd ymlaen i adeiladu ei IMCo. ei hun a chadw ei annibyniaeth fel pŵl gyda phob un o'r 8 CPLIL yng Nghymru fel yr unig randdeiliaid a chleientiaid.

Mae ffurfio IM Co. PPC yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu Cwmni Buddsoddi CPLIL annibynnol er budd holl randdeiliaid y 22 awdurdod lleol sylfaenol yng Nghymru, 382 o gyflogwyr a 412,000 o aelodau. Nid yn unig y gall PPC barhau i fuddsoddi a diogelu pensiynau CPLIL ei aelodau, bydd cyfle hefyd i barhau â'i rôl yn buddsoddi'n lleol ledled Cymru a gweddill y DU, gan weithio gyda Chynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Banc Datblygu Cymru, Banc Busnes Prydain a Llywodraeth Cymru. Bydd hyn oll yn hyrwyddo twf economaidd, darparu cyflogaeth, diogelu ynni glân a gwella seilwaith ehangach y wlad, er budd pobl Cymru.

- 2.4
1. Cyflwynodd Cronfa Bensiwn Gwynedd a PPC eu hymatebion ffurfiol i ymgynghoriad CPLIL 'Addas i'r Dyfodol' Llywodraeth San Steffan ar 16 Ionawr 2025. Gweler yn Atodiad 1 ac Atodiad 2.
 2. Cyflwynodd PPC ei achos busnes angenrheidiol ar 28 Chwefror 2025 (Atodiad 3 ac mae trosolwg ohono yn Adran 4 yr adroddiad hwn). Mae Swyddogion PPC hefyd wedi cynhyrchu dogfen Cwestiynau Cyffredin 'Addas i'r Dyfodol' yn Atodiad 4.
 3. Cymeradwyodd Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC achos busnes PPC yn ôl-weithredol ar 12 Mawrth 2025.
 4. Mae Cyfansoddiad y Cyngor hwn yn dirprwyo pob mater sy'n ymwneud â rheolaeth weithredol a strategol Cronfa Bensiwn Gwynedd CPLIL i'w Bwyllgor Cronfa Bensiwn ei hun. Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi nodi bod achos busnes PPC wedi'i gyflwyno.

2.5 **Cymeradwyaeth y Llywodraeth**

Mae PPC wedi derbyn y newyddion calonogol bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC, mewn llythyr (Atodiad 6) gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Bensiynau ar 9 Ebrill 2025. Mae swyddogion y Llywodraeth wedi gofyn i'r PPC barhau i weithredu ei gynlluniau a pharhau i hysbysu'r llywodraeth o'r cynnydd. Dylid nodi nad oedd 2 bŵl yn Lloegr, Brunel ac ACCESS, yn llwyddiannus wrth gyflwyno eu hachos busnes ac mae'r AG sylfaenol bellach wedi'u gwahodd i geisio ymuno â phŵl arall.

- 2.6
- Er mwyn bodloni dyddiadau cau heriol y Llywodraeth, mae angen cyflwyno cais yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i sefydlu IM Co PPC yn fuan. Mae gofynion yr FCA yn nodi bod yr endid sy'n gwneud cais am awdurdod (h.y. IMCo. PPC) yn gorfod cael ei ymgorffori cyn cyflwyno'r cais FCA a bod yn rhaid i ddeiliaid rhai swyddi Uwch Reoli (SMF) a nodir, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, gael eu hadnabod a'u cynnwys yn y cais. (Adran 5 yr adroddiad hwn).
- 2.7
- Mae Cynllun Busnes a Chyllideb Flynyddol PPC am 2025/26 wedi'u diwygio (Atodiad 5) i adlewyrchu'r gwaith galluogi a rhagbaratoi ychwanegol sy'n angenrheidiol gan Brosiect Wyddfa, e.e., costau ymgynghori prosiect, costau dethol a recriwtio, costau cais FCA, costau sefydlu IMCo. (Adran 6 yr adroddiad hwn). Cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 4 Mehefin 2025.

- 2.8 Dylid cyflwyno adroddiad pellach, sy'n nodi cynlluniau, cytundebau a dogfennaeth llywodraethu manwl (wedi'i amlinellu yn Adran 7) a chyllideb ar gyfer cyflawni'r cynigion sy'n cael eu cynnwys o fewn Achos Busnes PPC i'r Pwyllgor Cronfa Bensiwn am gymeradwyaeth maes o law. A hynny yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth ar ôl yr ymarfer ymgynghori a'r ddeddfwriaeth alluogi ddilynol yn y Bil Pensiynau nesaf a fydd yn cael ei ddarllen yn Nhŷ'r Cyffredin cyn gwyliau'r Haf.

3 Ymgynghoriad CPLIL 'Addas i'r Dyfodol' y Llywodraeth

- 3.1 Lansiodd y Llywodraeth Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar 14 Tachwedd 2024:

[Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol \(Cymru a Lloegr\): Fit for the future - GOV.UK](#)

yn amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r rheolaeth ar fuddsoddiadau CPLIL mewn tri maes:

1. Diwygio pŵl asedau'r CPLIL drwy orfodi safonau gofynnol penodol sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer cael model cyson a'r model gorau, yn unol ag arferion gorau rhyngwladol. Dyma'r safonau gofynnol a gynigiwyd:

- Byddai'n ofynnol i Awdurdodau Gweinyddu (AG) ddirprwyo gweithrediad y strategaeth fuddsoddi yn llawn i'r pŵl, a chymryd eu prif gyngor ar eu strategaeth fuddsoddi o'r pŵl.
- Byddai'n ofynnol i unrhyw bŵl fod yn gwmni rheoli buddsoddiadau sydd wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), gyda'r arbenigedd a'r capasiti i weithredu strategaethau buddsoddi.
- Byddai'n ofynnol i AG drosglwyddo asedau etifeddiaeth i reolwyr y pŵl erbyn 31 Mawrth 2026.

2. Hybu buddsoddiad y CPLIL yn ei ardaloedd a'i ranbarthau yn y DU, drwy ofyn i AG:

- nodi sut y byddant yn buddsoddi'n lleol yn eu strategaeth fuddsoddi, gan gynnwys ystod targed ar gyfer y dyraniad ac ystyried blaenoriaethau a chynlluniau twf lleol,
- gweithio gydag awdurdodau lleol, Awdurdodau Cyfunol, Awdurdodau Cyfunol Maerol, Awdurdodau Sir Cyfunol ac Awdurdod Llundain Fwyaf er mwyn adnabod cyfleoedd i fuddsoddi'n lleol. Yng Nghymru, byddai AG yn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol perthnasol ar eu blaenoriaethau a'u cynlluniau datblygu economaidd arfaethedig, a gydag awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol er mwyn adnabod cyfleoedd i fuddsoddi.
- gosod eu buddsoddiad lleol a'i effaith yn eu hadroddiadau blynyddol.

- Byddai'n ofynnol i bob pŵl gynnal proses diwydrwydd dyladwy addas ar fuddsoddiadau posib a gwneud y penderfyniad terfynol i fuddsoddi ai peidio.

3.Cryfhau llywodraethu Awdurdodau Gweinyddu y CPLIL a phŵl CPLIL yn y ffyrdd canlynol, gan adeiladu ar argymhellion Bwrdd Cynghori'r Cynllun (SAB) yn ei Adolygiad Llywodraethu Da 2021:

- byddai angen i aelodau'r pwyllgor gael yr wybodaeth a'r sgiliau priodol.
- byddai angen i'r AG gyhoeddi strategaeth hyfforddi a llywodraethu (gan gynnwys polisi gwrthdaro buddiannau) a strategaeth weinyddu, er mwyn penodi uwch swyddog CPLIL, a chynnal adolygiadau annibynnol bob dwy flynedd er mwyn ystyried a oes modd i'r AG gyflawni eu cyfrifoldebau.
- bydd angen i fyrdau pŵl gynnwys cynrychiolwyr o'u rhanddeiliaid a gwella tryloywder.

Gwahoddwyd i'r holl randdeiliaid CPLIL ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 16 Ionawr 2025, a gofynnwyd hefyd i bob un o'r 8 pŵl CPLIL, a sefydlwyd yn genedlaethol, gyflwyno Achos Busnes erbyn 1 Mawrth 2025 yn amlinellu sut gellir cwrdd â meini prawf gofynnol y Llywodraeth o ran maes 1 a 2 y meini prawf uchod o fewn y terfyn amser gofynnol, sef 31 Mawrth 2026.

3.2 Defnyddiodd PPC grŵp llywio prosiect i lunio ei gynigion, a chafodd y prosiect ei enwi'n 'Prosiect Wyddfa'. Roedd yr amserlen i gyflawni darn o waith manwl a chynhwysfawr o'r fath yn dynn. Ymdrechodd Grŵp Llywio'r Prosiect i roi gwybod i'r holl randdeiliaid am unrhyw ddatblygiadau, fel mae'r amserlen wedi'i ganiatáu, gyda sylwadau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r grŵp ymgysylltu rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn yr achos busnes terfynol.

1. Cyflwynodd Cronfa Bensiwn Gwynedd ei ymateb ei hun a chefnogodd Ymateb y PPC i Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol' CPLIL ar 16 Ionawr 2025. Yn dilyn hyn, cafodd y cyflwyniadau hyn eu cymeradwyo ar 27 Ionawr 2025.
2. Cyflwynodd PPC ei achos busnes ar 28 Chwefror 2025 (Atodiad 1 ac mae wedi'i grynhoi yn Adran 4 yr adroddiad hwn).
3. Cymeradwyodd Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC gyflwyniad achos busnes PPC ar 12 Mawrth 2025.
4. Mae Cyfansoddiad y Cyngor hwn yn dirprwyo pob mater sy'n ymwneud â rheolaeth weithredol a strategol Cronfa Bensiwn Gwynedd CPLIL i'w Bwyllgor Cronfa Bensiwn ei hun.

4 Achos Busnes 'Addas i'r Dyfodol' PPC

4.1 Mae'n amlwg nad yw PPC, yn ei ffurf bresennol, yn cwrdd â'r meini prawf gofynnol a amlinellwyd, yn y modd NAD yw'n Gwmni Rheoli Buddsoddi (IMCo.) a reoleiddir gan yr FCA. Felly, mae prif gynnwys achos busnes PPC yn canolbwyntio ar sut gellir cyrraedd y meini prawf

gofynnol hynny drwy ateb cwestiwn sylfaenol a godwyd gan yr ymgynghoriad, sef, a yw PPC naill ai'n:

- i) adeiladu ei IMCo. PPC ei hun a chadw ei bŵl annibynnol ei hun?
neu
- ii) uno â phŵl CPLIL arall yn Lloegr?

Mae PPC yn cytuno â chasgliadau'r Llywodraeth ym mharagraff 62 yr ymgynghoriad:

"62..... Yn benodol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithredu o fewn cenedl ddatganoledig ac mae ganddi bartneriaethau ar wahân gyda Chyd-bwyllgorau Corfforaethol Cymru. Gallai felly wneud synnwyr i gronfeydd CPLIL Cymru barhau mewn pŵl ar wahân."

- 4.2 Wedi cynnal ystyriaeth drylwyr o'r holl opsiynau, mae'n amlwg NA fyddai uno neu ddod yn gleient i bŵl arall yn "ddull mwy cost-effeithiol neu well o gyflawni cydymffurfiaeth". Felly, mae'r achos busnes yn gosod sut fydd PPC yn adeiladu ei IMCo. ei hun gyda'r wyth AG CPLIL yng Nghymru yn rhanddeiliaid ac yn gleientiaid i'r IMCo. newydd. (Mae'r achos busnes llawn a Chwestiynau Cyffredin wedi'u atodi yn Atodiad 3 ac Atodiad 4).
- 4.3 Mae'r cyflwyniad yn nodi achos busnes cadarn i'r PPC gadw pŵl buddsoddi annibynnol i Gymru a bwrw ymlaen i adeiladu gofynion newydd arfaethedig ychwanegol y Llywodraeth ar gyfer model gweithredu'r pŵl. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant PPC hyd yma ac yn cyflawni ar draws yr ystod o amcanion y mae'r Llywodraeth wedi'u nodi yn ei huchelgeisiau ar gyfer cynnydd y CPLIL ac yn benodol, y CPLIL yng Nghymru. Mae'r cyflwyniad yn dangos gallu PPC i gyflawni ar draws pob agwedd fel pŵl buddsoddi annibynnol.
- 4.4 Mae PPC yn cynnig sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau annibynnol ("IM Co"), wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ("FCA"), yn unol â meini prawf y Llywodraeth a symud holl asedau PPC dan reolaeth IM Co, yn unol â'r amserlenni. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn dangos y gwerthusiad gwrthrychol o'n cynlluniau yn erbyn meini prawf y Llywodraeth (Manteision Graddfa, Gwydnwch, Gwerth am Arian, Hyfywedd yn erbyn llinell amser) a sut mae hyn yn cymharu orau ag opsiynau eraill. Mae'r penderfyniad i adeiladu IM Co PPC yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth o bwys mewn buddsoddiad CPLIL yng Nghymru gan greu cyfleoedd gyrfa gwerthfawr a gwella'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru.
- 4.5 Mae'r model gweithredu arfaethedig yn adeiladu ar y llwyddiant, y profiad cadarnhaol a'r perthnasoedd strategol proffesiynol a sefydlwyd ac a ddatblygwyd yn nhaith PPC hyd yn hyn. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei fabwysiadu i gyflymu'r 'pontio' i'r model gweithredu newydd erbyn mis Mawrth 2026. Bydd yn parhau i drosoli manteision y raddfa sydd gan ein partneriaid yn y farchnad, ac yn datblygu'r gallu i adnabod a sicrhau diwydrwydd dyladwy o safbwynt buddsoddiadau lleol, darparu gwasanaethau ymgynghorol ar fuddsoddi a rheoli asedau etifeddiaeth.

- 4.6 Mewn amser, mae IM Co PPC yn bwriadu darparu manteision ychwanegol i fuddsoddwyr Awdurdod Gweinyddol trwy ymestyn yr ystod o alluoedd rheoli buddsoddiad mewnol.
- 4.7 Mae'r perthnasoedd strategol a sefydlwyd gyda'n partneriaid cyflenwi gwasanaeth presennol yn rhoi modd i esblygu'n rhesymegol y model PPC presennol i fod yn IM Co annibynnol a reolir gan yr FCA. Mae'r model yn manteisio ar brofiad ac adnoddau y partneriaid hyn sydd eisoes wedi'u rheoleiddio gan yr FCA, a fydd yn helpu'n fawr gyda'r broses o ffurfio IM Co. a reoleiddir gan yr FCA a bodloni meini prawf trylwyr y cais. Bydd yn gymorth hefyd o ran cynghori a chynorthwyo ar benodi'r uwch bersonél rheoli allweddol sy'n ofynnol gan yr FCA ar ôl awdurdodi a darparu'r adnoddau i ddarparu gwasanaethau cynghori buddsoddi IM Co. yn y lle cyntaf.
- 4.8 Wrth werthuso opsiynau pŵlio eraill, roedd osgoi'r angen i drosglwyddo asedau PPC i bŵl CPLIL arall yn ffactor mawr o ystyried y costau trosglwyddo sylweddol, sydd wedi'u modelu'n geidwadol ar oddeutu £45m ar asedau rhestredig a reolir yn weithredol yn unig. (Ffynhonnell: Russell Investment Management). Byddai costau trosglwyddo ychwanegol eraill ar asedau rhestredig goddefol a marchnad breifat.
- 4.9 Wrth uno, byddai llais PPC yn cael ei wanhau mewn llywodraethiant fel cyfranddaliwr neu gleient o'i gymharu â'r dewis arall sy'n cael ei ffafrio. Gallai hyn gyfyngu ar ein gallu i gyfeirio buddsoddiad lleol i gymunedau yng Nghymru, er enghraifft. Mae uno hefyd yn galw am gytundeb cronfa bartner, awdurdodi gan yr FCA, trosglwyddo asedau a byddai hynny'n cymryd sawl blwyddyn, ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth y gwaith cyflawni heb fod unrhyw fudd amlwg o wneud hynny.
- 4.10 Mae sefydlu IM Co PPC yn sicrhau bod cof corfforaethol Awdurdodau Gweinyddu yng Nghymru yn cael ei gadw, er mwyn parhau i reoli'r portffolio o asedau etifeddiaeth yn effeithlon; byddai hynny'n cael ei golli pe bai gorfodaeth i drosglwyddo i bŵl arall. Mae'r cyflwyniad hwn yn dangos bod opsiynau pŵl eraill wedi'u diystyru am yr holl resymau a nodwyd yma. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws cronfeydd, gan gynnwys cyfleoedd i gyd-fuddsoddi sy'n cefnogi twf y DU.
- 4.11 Mae ffurfio IM Co. PPC yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu Cwmni Buddsoddi CPLIL annibynnol er budd holl randdeiliaid y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, 382 o gyflogwyr a 412,000 o aelodau. Gall PPC barhau i fuddsoddi ar gyfer ei aelodau a diogelu pensiynau CPLIL, a chael y cyfle hefyd i barhau â'i rôl yn buddsoddi'n lleol ledled Cymru a gweddill y DU, gan weithio gyda Chynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Banc Datblygu Cymru, Banc Busnes Prydain a Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo twf economaidd, darparu cyflogaeth, diogelu ynni glân a gwella seilwaith ehangach y wlad, er budd pobl Cymru.

4.12 **Cymeradwyaeth y Llywodraeth**

Ar 9 Ebrill 2025, derbyniodd PPC lythyr (Atodiad 6) gan y Llywodraeth ar ran y Gweinidog Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros Bensiynau yn cymeradwyo'r achos busnes PPC ac yn annog cynnydd i gwrdd â'r dyddiad cau o fis Mawrth 2026. Dylid nodi nad oedd 2 bŵl yn Lloegr, Brunel ac ACCESS, yn llwyddiannus yn eu cyflwyniadau achos busnes ac mae'r AG bellach wedi'u gwahodd i ymuno â phŵl arall.

5 Cwmni Rheoli Buddsoddi PPC (PPC IMCo)

- 5.1 Wrth wraidd cyflwyno achos busnes PPC i'r llywodraeth, y bwriad yw adeiladu ei IMCo. ym mherchnogaeth lawn yr 8 AG yng Nghymru sydd yn rhanddeiliaid ac yn gleientiaid i'r IMCo. newydd. Hynny er mwyn parhau i gyflawni gwasanaethau rheoli buddsoddi i'r 8 AG tra'n datblygu'r gofynion gwasanaeth hanfodol ychwanegol gyda chymorth partneriaeth strategol sydd eisoes yn bodoli dros amser.
- 5.2 Er mwyn cadw at amserlenni'r Llywodraeth, mae'r cynllun gweithredu (yn adran 6 yr achos busnes) yn nodi bod cyflwyno cais yr IMCo i'r FCA yn dasg allweddol ar y llwybr critigol tuag at lwyddiant.
- 5.3 Mae cais yr FCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r endid sy'n gwneud cais am awdurdod (h.y. IM Co PPC) gael ei ymgorffori cyn cyflwyno'r cais, a bod yn rhaid i ddeiliaid rhai swyddi Uwch Swyddogaeth Rheoli, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, gael eu henwi'n benodol o fewn y cais ffurfiol i'r FCA er mwyn i'r FCA wirio ac asesu eu bod yn addas i'r rôl.
- 5.4 Felly, er mwyn cadw at y cynllun gweithredu, dylid ffurfio endid corfforaethol sy'n cael ei berchnogi'n llawn gan Awdurdodau Gweinyddu (AG) y PPC, bwrw ymlaen â'r broses recriwtio a dethol sy'n ofynnol i lenwi'r rolau SMF yn ei blaen fel rhan hanfodol o'r broses cais FCA, a chyflawni camau eraill o'r fath sy'n hanfodol i baratoi a chyflwyno cais i'r FCA.

6 Cynllun Busnes Blynyddol PPC 2025/26

- 6.1 Yn unol â'r arfer orau, mae PPC ar hyn o bryd yn cynhyrchu Cynllun Busnes Blynyddol a chyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod, a chymeradwywyd yn ffurfiol gwneud yr un fath ar gyfer 2025/26 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 12 Mawrth 2025. Mae'r holl wariant o ran rhedeg a rheoli'r CPLIL yn dod o gyfrifon cronfa bensiwn bob AG, **NID** Cronfa Gyffredinol y Cyngor (GF).
- 6.2 Mae Achos Busnes a chyllideb PPC ar gyfer 2025/26 wedi'u hadolygu i ymgorffori'r gwaith galluogi a rhagbaratoi ar gyfer Prosiect Wyddfa. Mae Cynllun Busnes Blynyddol a chyllideb PPC ar gyfer 2025/26, gan gynnwys gwaith galluogi a rhagbaratoi Prosiect Wyddfa wedi'u hatodi yn Atodiad 5, i'w cymeradwyo. Cymeradwyodd Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC y cynllun busnes diwygiedig hwn ar 4 Mehefin 2025.

7 Dogfennaeth a Chymeradwyaeth "Mynd yn Fyw"

7.1 Yn ychwanegol i'r gwaith rhagbaratoi sy'n ofynnol i geisio am awdurdod gan yr FCA, cydnabyddir y bydd pob un o'r eitemau allweddol canlynol (nid yw'n rhestr gyflawn) angen cymeradwyaeth y pwyllgor pensiynau ar gyfer bob AG PPC cyn y dyddiad "Mynd yn Fyw" arfaethedig ym mis Mawrth 2026:

(i) cymeradwyo erthyglau cwmni terfynol a'r cytundeb rhanddeiliaid ar gyfer IMCo.;

(ii) cymeradwyo terfynu'r cytundeb gweithredwr gyda chytundeb newydd i'w roi mewn lle rhwng y gweithredwr presennol ac IMCo.;

(iii) cymeradwyo cytundeb newydd rhwng darparwyr eraill ac IMCo. (i'r graddau sy'n ofynnol ac yn amodol ar benderfyniadau strwythuro pellach);

(iv) cymeradwyo IAA newydd (i sicrhau cysondeb gyda chytundeb cyfranddalwyr IMCo. / trefniadau bwrdd cyfranddalwyr newydd) (yn amodol ar benderfyniadau terfynol ar strwythurau llywodraethu);

(v) cytundebau rheoli buddsoddi rhwng IMCo. a'r awdurdodau cyfansoddol (o ran asedau etifeddiaeth);

(vi) cytuno ar gyfalaf rheoleiddio IMCo. a'r chwistrelliad perthnasol o'r cyfalaf hwnnw i'r IMCo;

(vii) trefniadau ategol o ran yr IMCo. a'r broses awdurdodi gan yr FCA;

(viii) cymeradwyo trefniadau cytundebol rhwng IMCo ac AG y PPC o ran gwasanaethau gweithredu strategaeth a chynghor ar fuddsoddi (yn amodol ar drafodaethau strwythuro pellach).

8 Goblygiadau Cyfreithiol

8.1 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 sy'n gosod y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer buddsoddiadau'r gronfa pensiwn a wneir gan Awdurdodau Gweinyddu. Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu pensiynau yn faes cymhleth ac arbenigol. Mae canllawiau'r Llywodraeth Genedlaethol yn nodi y caniateir cronni asedau CPLIL dan y gyfraith bresennol.

8.2 Mae Cylch Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo'r Cronfa Pensiwn yn gosod cyfrifoldeb y Pwyllgor ar gyfer llywodraethu gweithredol a strategol y Gronfa Pensiwn.

9 Goblygiadau Ariannol

9.1 Mae'r goblygiadau ariannol a amlinellwyd yn uniongyrchol gan yr adroddiad hwn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes Blynnyddol a

Chyllideb y PPC ar gyfer 2025/26, sydd wedi'u hatodi (Atodiad 4) a byddant yn cael eu hail-godi'n llawn fel 1/8^{fed} rhan o'r gyfran i gyllideb Cronfa Bensiwn Gwynedd ac **NID** yw'n effeithio ar Gronfa Gyffredinol Cyngor Gwynedd.

10 Asesiad Risgiau a Materion

- 10.1 Mae'r cynigion a amlinellwyd yn ganlyniad uniongyrchol i gyfarwyddiadau'r Llywodraeth ac mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei chefnogaeth ar gyfer y cynigion PPC a amlinellwyd. Fel y nodwyd yn Adran 4.12 yr adroddiad hwn, NID yw 2 bŵl arall yn Lloegr wedi bod yn llwyddiannus wrth berswadio'r Llywodraeth o'u gallu i gyflawni'r un peth. Felly, mae'r achos busnes cryf a'r cynllun ac amserlen manwl a gymeradwywyd gan y Llywodraeth yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at liniau'r risgiau hynny sy'n bodoli.
- 10.2 Mae'r model gweithredu PPC a amlinellwyd yn yr achos busnes yn esblygu ar y model cyfredol a fabwysiadwyd ac yn ceisio gweithredu'r cofrestriad FCA ychwanegol sy'n ofynnol, darparu gwasanaeth a galluoedd wrth symud ymlaen, felly mae'r risgiau gweithredol o symud o PPC i PPC IMCo. wedi'u lliniaru yn sylweddol heb fod angen trosglwyddo asedau.

11 Goblygiadau Asesiad Effaith Integredig

- 11.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Mesur y Gymraeg (Cymru).
- 11.2 Mae sgrinio Asesiad Effaith Integredig (IIA) wedi'i wneud, ac nid oes unrhyw oblygiadau andwyol wedi'u nodi.

ATODIADAU

Atodiad 1 Ymateb Cronfa Unigol i'r Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol'

Atodiad 2 Ymateb PPC i'r Ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol'

Atodiad 3 Achos Busnes PPC ar gyfer 'Addas i'r Dyfodol'

Atodiad 4 Cwestiynau Cyffredin Achos Busnes 'Addas i'r Dyfodol' PPC

Atodiad 5 Cynllun Busnes Blynyddol PPC 2025/26

Atodiad 6 Llythyr Gweinidogol 9 Ebrill 2025

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cymru a Lloegr): 'Fit for the Future'

Ymateb ymgynghoriad gan Gronfa Bensiwn Gwynedd

Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn i bob cronfa ddiwallu'r safonau gofynnol o gronni a nodir uchod?

Ymddengys bod cyd-destun y newidiadau yn awgrymu nad yw'r CPLIL yn gweithredu'n effeithiol. Yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, rydym yn credu bod y gronfa a Phartneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn gweithredu'n effeithiol gyda lefel gyllid cryf ofnadwy, pwyllgor sy'n ymgysylltu llawer a pherthynas wych rhwng y gronfa a'r cyd-gronfa.

Mae'r safonau isafswm a osodwyd ar gyfer y cyd-gronfa yn ddatblygiad sylweddol o'i rôl gyfredol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, ond mae disgwyl iddynt ddarparu'r gwasanaethau hyn mewn ychydig dros flwyddyn. Rydym yn gweld hyn fel risg sylweddol i ddeilliannau buddsoddi'r CPLIL ac felly cyllid cyhoeddus y llywodraeth leol a threthdalwr.

Rydym yn credu y dylid ail-ymdrin â phwrpas a gyrrwr y cynigion, rhoi amserlen sy'n sylweddol hwy i gyd-gronfeydd ddatblygu unrhyw wasanaethau newydd, gan ddatblygu amserlen blaenoriaethu yn seiliedig ar ddatblygiadau sy'n creu'r gwerth fwyaf a gwella deilliannau.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n cytuno y dylai'r strategaeth fuddsoddi a osodwyd gan yr awdurdod gweinyddu gynnwys amcanion buddsoddi lefel uchel, ac yn ddewisol, dyraniad asedau strategol lefel uchel, gyda'r holl weithgareddau gweithredu wedi'u dirprwyo i'r gronfa?

Ydyn.

Mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddu gadw'r gallu i osod amcanion buddsoddi lefel-uchel a dyraniad asedau lefel-uchel er mwyn i'r cyfaddawd risg a dychwelyd gael ei alinio gyda rheolaeth rhwymedigaethau pob awdurdod gweinyddu. Pe byddai'r cwmni cyd-gronfa yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros weithredu strategaeth fuddsoddi (er enghraifft, dyraniad o fewn ecwitiâu) yna bydd angen i'r cwmni cyd-gronfa a'r awdurdod gweinyddu weithio gyda'i gilydd yn agosach. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i'r awdurdod gweinyddu sicrhau ei fod yn medru gosod ei amcanion hinsawdd/ESG ac amcanion rheoli risg (gan fod hyn yn gysylltiedig â'r strategaeth ariannu sy'n bwrpasol i gronfa CPLIL).

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno y byddai strategaeth fuddsoddi ar y sail hon yn ddigonol i fodloni dyletswydd ymddiriedol yr awdurdod gweinyddu?

Na, mae ystyriaethau ychwanegol ar gyfer awdurdod gweinyddu wrth gwrdd â'u dyletswydd ymddiriedol.

Er mwyn cwrdd â'i ddyletswydd ymddiriedol, mae angen i'r awdurdod gweinyddu sicrhau bod y strategaeth fuddsoddi yn targedu lefel briodol o risg a dychwelyd i gyflawni ei amcanion ariannu. Felly, mae angen i'r awdurdod gweinyddu gadw dylanwad sylweddol dros y strategaeth fuddsoddi i sicrhau mai dyma yw'r achos. Yn ymarferol, bydd hyn yn gofyn am berthynas wahanol gyda'r cwmni cyd-gronfa, gan weithio mewn mwy o bartneriaeth i sicrhau cwrdd ag amcanion cronfa'r cleient.

Cwestiwn 4

Beth yw eich barn ar y templed arfaethedig ar gyfer dyrannu asedau strategol yn y datganiad strategaeth fuddsoddi?

Yn ei ffurf ddrafft, mae'n rhy syml. Mae gan y mwyafrif o gronfeydd CPLIL y dyraniad mwyaf i ecwitiâu. Fel isafswm, dylid cynnwys y ffafriaeth rhwng gweithredol a goddefol yn y templed, gan fod hyn yn effeithio'n sylweddol ar gostau rheoli.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno y dylai'r gronfa ddarparu prif gyngor buddsoddi ar strategaethau buddsoddi ei AG partner? Ydych chi'n gweld y byddai angen rhagor o gyngor neu fewnbnw er mwyn gallu ystyried cyngor a ddarperir gan y gronfa – os felly, ym mha ffurf yr ydych chi'n rhagweld hynny?

Na - mae gennym bryderon ar y cynnig i AG gymryd cyngor buddsoddi gan gwmnïau cyd-gronfa.

Gall y ffaith bod cwmnïau cyd-gronfa yn darparu cyngor strategol a gweithredu'r strategaeth arwain at fuddiannau sy'n gwrthdaro. Felly, ni ddylai cronfeydd y CPLIL orfod cymryd cyngor strategol gan y cwmni cyd-gronfa. Tra bo' awdurdodau gweinyddu efallai yn dymuno cael cyngor strategol gan y cwmni cyd-gronfa, mae'n rhaid iddynt fedru cael mynediad at gyngor strategol lefel-uchel annibynnol ac, yn y pen draw, eu penderfyniad nhw yw pa gyngor i'w dderbyn ac, os yn angenrheidiol, opsiynau eraill i'w archwilio gyda'r cwmni cyd-gronfa. Byddai ystyried cyngor y cyd-gronfa a chyngor annibynnol yn aml yn cynyddu costau ar gyfer y gronfa CPLIL.

Rydym yn rhagweld y byddai'r awdurdod gweinyddu dal i fod angen derbyn cyngor gan ymgynghorydd buddsoddi er mwyn derbyn sicrwydd, i herio'r cyd-gronfa a sicrhau cysondeb gyda'u strategaeth ariannu, gyda sgôp y cyngor yn gyfyngedig i amcanion strategol lefel-uchel.

Bydd angen i'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi gadarnhau lle mae'r cyfrifoldeb strategol yn sefyll rhwng y cwmni cyd-gronfa a'r awdurdod gweinyddu er mwyn sicrhau bod yr awdurdod gweinyddu yn cyflawni ei ddyletswydd ymddiriedol.

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno y dylai pob cronfa gael ei sefydlu fel cwmnïau rheoli buddsoddi a awdurdodwyd gan yr FCA, a'u hawdurdodi i ddarparu cyngor perthnasol?

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i roi cwmni rheoli buddsoddi a reoleiddir gan yr FCA mewn lle os oes angen gwneud hynny, ond nid ydym yn credu bod hyn yn ofyniad angenrheidiol i gwrdd â'r amcanion datganedig o gronni.

Rydym yn deall y rhesymau dros fod eisiau'r safonau o broffesiynoldeb sy'n angenrheidiol i gael eu hawdurdodi gan yr FCA, fodd bynnag, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu dull i gael budd o awdurdodiad yr FCA o reolwyr buddsoddi wedi'i allanoli. Golyga hyn y bydd unrhyw fuddion ychwanegol o ddod yn awdurdodedig gan yr FCA eu hunain yn gyfyngedig. Yn hytrach, bydd yn ysgwyddo mwy o gostau o addasu'r model newydd ac yna'r costau gweithredu o'r staff mewnol ychwanegol y bydd angen eu recriwtio. Gall fod yn benodol anodd a drud i recriwtio'r staff angenrheidiol mewn cyfnod mor fyr.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno y dylai AG fod yn ofynnol i drosglwyddo'r holl asedau rhestredig i gerbydau wedi'u cronni a reolir gan gwmni eu cronfa?

Dim o reidrwydd. Rydym yn credu y dylai'r holl asedau gael eu cronni er budd gorau'r cronfeydd. Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru fuddsoddiadau goddefol wedi'u rhestru mewn cerbydau wedi'u cronni nad ydynt yn cael eu rheoli gan gwmnïau cyd-gronfa. Mae'r drefn gyfredol hon yn gost effeithiol iawn. Os bydd trosglwyddo buddsoddiadau goddefol i gerbydau a reolir gan gronfeydd yn cael ei orfodi, bydd AG yn wynebu costau ychwanegol heb ddigolledu buddion.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i drosglwyddo buddsoddiadau anhylifol etifeddol i reolwyr y cyd-gronfa?

Dim o reidrwydd. Unwaith eto, rydym yn credu y dylai cronfeydd gronni eu hasedau cyn belled â phosib, er budd gorau'r gronfa.

Byddwn yn cefnogi gofyniad na ddylid gwneud buddsoddiadau anhylifol newydd y tu allan i'r cyd-gronfa.

Cwestiwn 9

Pa gapasiti ac arbenigedd y byddai angen i'r cronfeydd ddatblygu i ymgymryd â rheoli asedau etifeddol y cronfeydd partner?

Bydd angen adnodd ychwanegol sylweddol gan fod asedau etifeddol yn weddol amrywiol.

Cwestiwn 10

A oes gennych farn ar yr amserlen ddangosol ar gyfer gweithredu, gyda chronfeydd yn mabwysiadu'r nodweddion arfaethedig a chronni wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2026?

Hyd yn oed ar gyfer y cyd-gronfeydd gyda mantais, mae cwrdd â holl ofynion y llywodraeth yn debygol o fod yn heriol. Bydd angen i nifer o gyd-gronfeydd, gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru, ymgymryd â llawer o waith i gwrdd â gofynion y rheoleiddiad FCA, a gall fod gyda chostau gormodol a'r canlyniad anfwriadol o osgoi cronni pellach a buddsoddiad y DU wrth iddynt weithio drwy'r heriau hyn.

Ar gyfer pob un neu'r rhan fwyaf o gronfeydd, mae newidiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth AG (gan Gynghorau llawn a/neu bwyllgorau S101) yn debygol. Mae PPC yn cael ei lywodraethu gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) cyfreithiol rhwymol sy'n cynnwys rhai materion a gedwir yn ôl sy'n gofyn am gytundeb lleol. Bydd angen dad-ddirwyn a newid hyn.

Gall fod yn anodd neu'n amhosibl i Awdurdodau Gweinyddu gymeradwyo camau gweithredu gyda chostau materol (megis llogi personél ar gyfer cwmnïau cronfeydd) yn absenoldeb rheoliadau (ar ffurf ddrafft o leiaf). Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau mewn rheoliadau y mae'r llywodraeth yn eu gwneud yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol i atal oedi cymeradwyo awdurdodau lleol a allai ei gwneud hi'n amhosibl cwrdd ag amserlen heriol y llywodraeth. Gall hefyd fod yn anodd i'r FCA hwyluso'r gwaith o fewn y terfyn hwn.

Cwestiwn 11

Pa sgôp sydd ar gael i gynyddu cydweithredu rhwng cronfeydd, gan gynnwys rhannu arbenigeddau neu arbenigedd lleol penodol? A oes unrhyw rwystrau ar gyfer cydweithio o'r fath?

Os yw cydweithrediad rhwng cyd-gronfeydd yn fuddiol i gronfeydd y cleient o ran costau is i gael mynediad at ystod fwy o bortffolios arbenigol, yna byddai cynyddu cydweithrediad yn fuddiol. Gall fod yn benderfyniad i'r cwmni cyd-gronfa i yrru cydweithrediad ac arddangos ei fod er budd ei gleientiaid. Yn ychwanegol, dylai'r cwmni cyd-gronfa fedru penderfynu p'un a yw'n dymuno buddsoddi drwy gyd-gronfa arall os yw hynny'n dal i fod er budd gorau'r cleient.

Cwestiwn 12

Pa botensial sydd ar gyfer cydweithio rhwng cronfeydd partner yn yr un gronfa ar faterion fel gweinyddu a hyfforddiant? A oes meysydd eraill lle gallai mwy o gydweithio fod yn fuddiol?

Nid ydym yn cefnogi cydweithrediad gorfodol ar faterion megis gweinyddu. Mewn cyferbyniad â buddsoddiadau, mae'r potensial o gynhyrchu economïau sylweddol yn is ond mae'r risg o drosglwyddo data ac ati yn llawer uwch. Mae llawer o amser ac adnoddau yn cael eu rhoi i weithio gyda chyflogwyr i sicrhau data cywir a glân, felly mae datblygu perthnasau yn hanfodol. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos y bydd cynyddu'r raddfa yn gwneud hyn yn fwy effeithlon.

Mae gan PPC gynllun hyfforddi blynyddol eisoes ar gyfer AG.

Cwestiwn 13

Beth yw eich barn chi ar y diffiniad priodol o 'fuddsoddiad lleol' at ddibenion adrodd?

Mae PPC yn cydnabod disgwyliad y llywodraeth y dylid ystyried "lleol" ledled y DU, gan ddefnyddio asedau CPLIL i gefnogi twf y DU. Ar yr un pryd, o ystyried ei sefyllfa unigryw a'i gymhelliant i gefnogi buddsoddiad yng Nghymru, sef lle y bydd PPC yn blaenoriaethu ei hymdrechion buddsoddi lleol, gan adeiladu ar waith a wnaed hyd yma.

Fodd bynnag, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn credu y dylai diffiniad "lleol" hefyd ymdrin â'r ardal a wasanaethir gan yr awdurdod gweinyddu. O ganlyniad, rydym yn awgrymu bod adrodd yn ymdrin â buddsoddiad lleol ar dair lefel: ardal y gronfa, ardal y cyd-gronfa a gwlad. Byddai hyn yn hwyluso adrodd mwy deallus, gan alluogi cyd-gronfeydd ac awdurdodau gweinyddu ddangos effaith mewn ffyrdd gwahanol.

Cwestiwn 14

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu weithio gyda'u Hawdurdod Cyfunol, Awdurdod Cyfunol Maerol, Awdurdod Sir Cyfunol, Cyd-bwyllgor Corfforedig neu gydag awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle nad yw'r rhain yn bodoli, i nodi cyfleoedd buddsoddi lleol addas, ac i ystyried cynlluniau twf lleol a blaenoriaethau twf lleol wrth osod eu strategaeth fuddsoddi? Sut fydddech chi'n rhagweld y byddai'ch cronfa yn ceisio cyflawni hyn?

Dylent.

Yn amlwg, mae cyfleoedd i weithio gyda phartïon eraill i adnabod cyfleoedd buddsoddi lleol posib, ond mae angen eglurder ar y ffordd ddisgwyliedig tuag at weithredu.

Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn disgwyl i bob cronfa adnabod cyfleoedd posib a fydd yn cael eu cynnig i'r cyd-gronfa er ystyriaeth, gan gynnwys diwydrwydd dyladwy a gwarantu. Mae hyn yn creu angen ar gyfer adnodd mewnol gyda chyfres o sgiliau priodol ar lefel y gronfa a'r lefel cyd-gronfa, ac i gadarnhau'r rhaniad o gyfrifoldeb rhwng y cronfeydd a'r cyd-gronfa, yn benodol:

- Mae angen i gronfeydd fedru adnabod beth all fod yn ffurfiau priodol o fuddsoddiad lleol neu beidio a bydd, yn ei dro, angen sefydlu'n glir y canllawiau buddsoddi priodol sy'n cynnwys beth sy'n dderbyniol.
- Mae'r cyd-gronfa yn gweithredu cyfanswm o gyfalaf ar draws cronfeydd ac felly mae angen iddynt werthuso'r rhinweddau perthnasol o wahanol gyfleoedd o gronfeydd yr aelodau.

Er enghraifft, a fydd angen i gronfeydd basio drwy'r holl gyfleoedd i'r cyd-gronfa, neu ymgymryd â rhyw fath o asesiad eu hunain ar beth ddylid ei basio? Bydd y cyntaf yn rhoi mwy o lwyth gwaith ar y cyd-gronfeydd ond dylent fod wedi'u lleoli yn well i ddarparu'r asesiad hwn na'r cronfeydd.

Cwestiwn 15

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu nodi eu hamcanion ar fuddsoddiad lleol, gan gynnwys amrediad targed yn eu datganiad strategaeth buddsoddi?

Ydyn.

Mae'r ymgynghoriad yn awgrymu y dylai'r cronfeydd osod eu hamcanion ar fuddsoddiadau lleol, gan gynnwys amrediad dyraniad targed a byddwn yn gefnogol o hyn. Dylai dyraniad ased strategol aros yn benderfyniad buddsoddiad lleol, o ystyried y bydd penderfyniadau polisi buddsoddi ac amcanion ariannu fel arall yn aros gyda'r awdurdodau gweinyddu. Bydd angen eglurder o sut mae buddsoddiad lleol yn gor-gyffwrdd â fframio arfaethedig y dyraniad ased strategol, e.e., a fyddai buddsoddiad lleol yn ddosbarth ased ynddo'i hun?

Cwestiwn 16

Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn am gronfeydd i ddatblygu'r gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy ar gyfleoedd buddsoddi lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath?

Ydyn.

Mae'n briodol bod mecanwaith clir lle gellir cyflawni diwydrwydd dyladwy ar gyfleoedd buddsoddi lleol, a gwneud ac wedyn rheoli buddsoddiadau ar sail barhaus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn adnabod bod hyn angen mynediad at gryn arbenigedd a sgiliau gwahanol. Cyn mynd â'r gofyniad hwn ymlaen, mae'n rhaid ei wneud yn glir ar sut mae'n disgwyl gweithredu buddsoddiadau lleol, e.e., bydd angen gwahanol sgiliau os yw'r buddsoddiadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol neu os ydynt yn cael eu gwneud drwy gerbyd cronni.

Cwestiwn 17

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu adrodd ar eu buddsoddiadau lleol a'u heffaith yn eu hadroddiadau blynyddol? Beth ddylid ei gynnwys yn yr adroddiadau hyn?

Ydyn.

Fodd bynnag, mae'r ddogfen ymgynghori yn awgrymu bod adrodd yn gwasanaethu i wneud y cronfeydd yn atebol, ond i wneud y cynigion ar gyfer buddsoddiad lleol drwy'r cyd-gronfa, ac felly mae angen eglurder.

Mae adrodd yn sicr yn ddefnyddiol, fodd bynnag dylid bod egwyddorion clir ar gyfer adrodd ar fuddsoddiadau lleol i sicrhau disgrifiad clir a theg o asedau'r cronfeydd.

Dylai'r adrodd wasanaethu pwrpas clir ar gyfer awdurdodau gweinyddu a'u cyflawni i gwrdd ag anghenion rhanddeiliaid. Tra bo' modd i'r Adroddiad Blynyddol fod yn fforwm priodol ar gyfer adrodd, efallai nad yw'n briodol fel modd o gyfathrebu ar gyfer aelodau. Ni ddylai'r adrodd ddyblygu adrodd a

wnaed mewn mannau eraill. Er enghraifft, os yw adrodd ar fuddsoddiadau lleol yn cael ei ddarparu gan gyd-gronfeydd (gan eu bod yn gyfrifol am weithredu), yna byddai'n fwy priodol i ddarparu adrodd o'r fath ar lefel cyd-gronfa. Gall cronfeydd wedyn gyfeirio adrodd cyd-gronfa yn ôl yr angen.

Ni ddylai'r adrodd greu cost angenrheidiol a/neu feichiau llywodraethu ar gronfeydd. Nid yw adroddiad effaith yn gyffredinol wedi'i ddatblygu mor dda â ffurfiau eraill o adrodd stiwardiaeth, ac mae'r mecanwaith ar gyfer cyfrifo effaith yn debygol o fod yn fwy goddrychol nag adrodd ar berfformiad.

Cwestiwn 18

Ydych chi'n cytuno â'r dull cyffredinol o lywodraethu, sy'n adeiladu ar argymhellion Llywodraethu Da'r SAB?

Ydyn.

Rydym yn cefnogi'r Llywodraeth yn cymryd camau i weithredu Llywodraethu Da'r SAB fel bod mwy o gysondeb ar draws y cynllun. Yn benodol, rydym yn gefnogol o'r cynnig bod y Llywodraeth yn gweithio gyda'r SAB i ddatblygu a chyhoeddi arweiniad statudol newydd ar lywodraethu. Bydd arweiniad yn helpu i gyflawni cysondeb ar draws y CPLIL a bydd yn rhoi mwy o eglurder ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth ar gyfer sut dylai'r gofynion newydd gael eu gweithredu.

Cwestiwn 19

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi strategaeth lywodraethu a hyfforddi, gan gynnwys polisi gwrthdaro buddiannau?

Ydyn.

Rydym yn cytuno y dylai'r cronfeydd gyhoeddi strategaeth lywodraethu, strategaeth hyfforddi a pholisi gwrthdaro buddiannau er ni ddylai'r rhain i gyd ffurfio rhan o'r un ddogfen. Dylai'r rhain fod yn ddogfennau ar eu pen eu hunain ar gyfer ymarferoldeb, hwylustod cyfeirio a hyblygrwydd, er nid oes unrhyw reswm pan nad oes modd iddynt gyfeirio at neu roi dolen i'w gilydd pan fo'n berthnasol. Mae'r arweiniad datganiad cydymffurfiaeth llywodraethu cyfredol yn dyddio'n ôl i Ragfyr 2008 ac yn ôl-ddyddio cyd-gronfeydd buddsoddi a byrddau pensiwn lleol ac felly, bydd arweiniad newydd yn ddefnyddiol ar gyfer cronfeydd yn yr ardal hon.

Cwestiwn 20

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn â phenodi uwch swyddog CPLIL?

Ydyn.

Byddai'r gofyniad i gael uwch swyddog CPLIL ymhob cronfa CPLIL yn ddatblygiad a fydd yn cael ei groesawu, a bydd ganddo sawl mantais o bosib:

- Cydnabyddiaeth ddigonol o swyddogaeth y CPLIL - er nad yw'r ddarpariaeth bensiynau o fewn cyngor yn wasanaeth rheng-flaen, mae'n rhan bwysig o'r drefn llywodraeth leol, ac o bosib, mae risgiau enw da ac ariannol sylweddol o lywodraethu gwan ar lefel leol. Dylai uwch swyddog CPLIL helpu i sicrhau bod materion CPLIL yn cael ystyriaeth ac amlygrwydd priodol o fewn yr awdurdod lleol, a bod materion CPLIL yn cael eu cynrychioli'n briodol.
- Uwch adnoddau digonol - mae'r CPLIL wedi dod yn gynyddol gymhleth dros y blynyddoedd diwethaf a dylai greu rôl uwch swyddog CPLIL helpu i sicrhau bod uwch adnoddau digonol yn cefnogi'r tîm pensiynau ehangach.
- Cysondeb ar draws y cynllun - gall awdurdodau lleol fod yn wahanol i'w gilydd yn sylweddol o ran maint, diwylliant, swyddogaethau ac adnoddau, a gall y gwahaniaethau hyn arwain at wahaniaethau

yn sut gellir cyflawni swyddogaeth y CPLIL. Bydd cael uwch swyddog CPLIL fel gofyniad ymhob cronfa yn sicrhau, er gwaetha'r gwahaniaethau yn y dirwedd leol, bod swyddog dynodedig ymhob awdurdod gweinyddu sydd â chyfrifoldeb ar gyfer y CPLIL.

Cwestiwn 21

Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi strategaeth weinyddol?

Ydyn.

Ar hyn o bryd, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn paratoi a chyhoeddi strategaeth weinyddu ac felly yn cytuno gyda'r gofynion hyn i sicrhau cysondeb ar draws yr holl gronfeydd.

Cwestiwn 22

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid y ffordd y mae strategaethau ar lywodraethu a hyfforddiant, cyllid, gweinyddu a buddsoddiadau yn cael eu cyhoeddi?

Ydyn.

Tra ei fod yn bwysig i'r holl randdeiliaid yn y CPLIL gael mynediad hawdd at ddogfennau polisi cronfa, rydym yn cytuno nad yw'n ddefnyddiol cynnwys y testunau llawn o'r dogfennau hyn sy'n aml yn hir iawn yn yr adroddiad blynyddol. Rydym yn cefnogi'r awgrym bod y Llywodraeth yn gweithio gyda'r SAB er mwyn ystyried hyn ymhellach a diweddarau'r arweiniad.

Cwestiwn 23

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn ag adolygiadau llywodraethu annibynnol bob dwy flynedd? Beth yw eich barn ar y fformat a'r meini prawf asesu?

Ydyn.

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o adolygiad llywodraethu annibynnol, gan fod hyn yn darparu asesiad amcanion ar ba mor dda y mae'r cronfeydd yn cwrdd â'r safonau llywodraethu sydd eu hangen. Mae'n bwysig bod y broses wedi'i dylunio mewn modd i ganolbwyntio ar wella llywodraethu, rhannu arferion da a chefnogi cronfeydd. Gall dull bob dwy flynedd fod yn anodd ei gefnogi'n genedlaethol, opsiwn posib fyddai adolygiad ar sail tair blynedd.

Cwestiwn 24

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fynnu bod gan aelodau'r pwyllgor pensiwn wybodaeth a dealltwriaeth briodol?

Ydyn.

Mae gan bwyllgorau pensiynau gyfrifoldeb cyffredinol ar benderfyniadau yn y CPLIL ac mae'n hanfodol ar gyfer llywodraethu'r cynllun yn effeithiol bod ganddynt lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth o reolau'r cynllun. Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhoi gwerth uchel ar hyfforddiant aelodau'r pwyllgor i sicrhau bod pwyllgorau yn medru darparu craffu gwerthfawr a goruchwyliaeth rhedeg y gronfa. Fodd bynnag, bydd ffurfioli hyn drwy ofyniad statudol yn sicrhau bod disgwyliadau'r Llywodraeth yn glir ac yn helpu i gefnogi gwell cysondeb ar draws y cynllun.

Fel mae'r ymgynghoriad yn ei nodi, mae gofyn i aelodau bwrdd pensiwn lleol gael gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynllun ers i fyrddau pensiwn lleol gael eu sefydlu ym mis Ebrill 2015 ac rydym yn credu ei fod yn bwysig ymdrin â'r anomaledd nad yw'r un gofyniad yn berthnasol i bwyllgorau pensiynau eto.

Cwestiwn 25

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fynnu bod Awdurdodau Gweinyddu yn nodi yn eu strategaeth llywodraethu a hyfforddiant sut y byddant yn sicrhau bod y gofynion newydd ar wybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu bodloni?

Ydyn.

Rydym yn cytuno gyda'r cynnig hwn. Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd bolisi hyfforddiant, ond mae hyn yn rhoi cyfle i ddod ag amryw o ofynion hyfforddiant at ei gilydd, megis Cod Ymddygiad Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiwn, fframwaith sgiliau a gwybodaeth CIPFA a MiFID II i arweiniad cyson.

Cwestiwn 26

Beth yw eich barn chi p'un a ddylid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu benodi person annibynnol fel ymgynghorydd neu aelod o'r pwyllgor pensiwn, neu ffyrdd eraill o gyflawni'r nod?

Tra ein bod yn cefnogi ystyriaeth y Llywodraeth i sut y gellir datblygu llywodraethu CPLIL a sut all awdurdodau gweinyddu gael mwy o gefnogaeth ar dirwedd gweinyddu, llywodraethu a buddsoddiadau cymhleth y cynllun, rydym yn ansicr os mai'r gofyniad ar gyfer ymgynghorydd annibynnol yw'r ffordd orau.

Ymddengys bod yr ymgynghoriad yn rhagweld y byddai'r ymgynghorydd annibynnol yn weithiwr proffesiynol pensiynau unigol a fyddai'n cefnogi'r pwyllgor pensiynau ar weinyddu, llywodraethu a strategaeth fuddsoddi. O ystyried bod yr holl feysydd hyn yn gymhleth iawn eu hunain, byddai angen i ymgynghorydd annibynnol gael capasiti ymchwil sylweddol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon yn ddigonol.

Mae'n ymddangos y gall y Llywodraeth gredu bod angen cael ymgynghorydd annibynnol ar lefel y gronfa er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau gweinyddu arbenigedd buddsoddi digonol i fedru herio cyd-gronfeydd ar faterion buddsoddi a rhoi cefnogaeth i bwyllgorau ar osod y strategaeth fuddsoddi. Ymddengys bod hyn yn gydnabyddiaeth y bydd y cynnig bod cyd-gronfeydd yn darparu cronfeydd partner gyda'r prif gyngor ar ddyraniad ased strategol yn gadael bwlch pwysig yn llywodraethu'r CPLIL. Rydym yn ansicr p'un a fyddai ychwanegu elfen newydd gymhleth i dirwedd llywodraethu'r CPLIL, gyda marchnad nad yw wedi'i phrofi na'i datblygu, yn well na'r safle cyfredol, lle gall awdurdodau wneud eu penderfyniadau eu hunain ar bwy i fynd atynt i gael cyngor buddsoddi. Ar gydbwysedd, rydym yn credu y dylai'r cronfeydd CPLIL fedru caffael cyngor gan ystod o ymgynghorwyr yn ôl eu hanghenion ac yn unol ag unrhyw ofynion proffesiynol a rheoleidiol.

Cwestiwn 27

Ydych chi'n cytuno y dylai byrddau cwmnïau cronfeydd gynnwys un neu ddau o gynrychiolwyr cyfranddalwyr?

Mae'n hanfodol y dylai'r AG sy'n gyd-gyfranddalwyr cwmni'r gronfa a chleientiaid / buddsoddwyr gael cynrychiolaeth ar fwrdd cwmni'r gronfa.

Yn ddelfrydol, ni fyddai nifer y cynrychiolwyr cyfranddalwyr yn cael eu hamodi. Bydd angen i'r FCA weld cyfansoddiad arfaethedig a chylch gorchwyl Bwrdd cwmni'r gronfa fel rhan o'r broses ar gyfer awdurdodi cwmni'r gronfa. Dylai fod yn feirniad o ran cymysgedd a'r sgiliau priodol o gynrychiolwyr aelodau'r Bwrdd.

Cwestiwn 28

Beth yw eich barn chi ar y ffordd orau o sicrhau bod barn a diddordebau aelodau yn cael eu hystyried gan y cronfeydd?

Mae wedi bod yn her ers amser i gronfeydd gael barn gynrychioladol wirioneddol eu haelodau. Dylai cronfeydd ymgysylltu â'u haelodaeth i ddeall eu barn ac yna bwydo hyn i'r cyd-gronfa. O ystyried yr her o ymgysylltu ag aelodau, maent hyd yn oed yn llai tebygol o ymgysylltu â chyd-gronfa nad ydynt yn gyfarwydd â hi, o gymharu â'u cronfa bensiw lleol, sef cronfa maent eisoes yn gyfarwydd â hi ac yn aelod ohoni.

Bydd hyn hefyd yn helpu cronfeydd i sicrhau bod barn eu haelodau yn cael eu cynrychioli, o gymharu â'r arolwg yn cael ei weithredu gan y cyd-gronfa, gan y byddant wedi gweld yr wybodaeth yn uniongyrchol i gyfathrebu wedyn i'r cyd-gronfeydd a'u herio nhw ar hynny. Bydd angen i fecanweithiau llywodraethu priodol gael eu rhoi mewn lle i alluogi llais yr aelodau i gael ei glywed, heb roi dylanwad gormodol ar unrhyw grŵp o aelodaeth. Mae angen cydnabod y prif beth mai, yn wahanol i drefniadau sy'n seiliedig ar ymddiriedolaeth, perchennog yr asedau CPLIL yw'r awdurdod gweinyddu.

Cwestiwn 29

Ydych chi'n cytuno y dylai cronfeydd adrodd yn gyson a gyda mwy o dryloywder, gan gynnwys perfformiad a chostau? Pa fetrigau ydych chi'n meddwl fyddai'n fuddiol i'w cynnwys yn yr adroddiadau hyn?

Ydyn.

Bydd awdurdodau gweinyddu yn parhau i fod angen adrodd ar berfformiad buddsoddi, hinsawdd a metrigau ESG eraill, yn ogystal â chostau. Rydym yn derbyn y rhain yn flynyddol naill ai o'r cyd-gronfa neu reolwyr etifeddol a darparwyr gwasanaeth, yn unol â'r Fenter Tryloywder Cost ar gyfer costau buddsoddi. Ni ddylai unrhyw ddirprwyo ychwanegol o gyfrifoldebau i gwmni'r cyd-gronfa leihau'r lefel o adrodd i awdurdodau gweinyddu.

Cwestiwn 30

Ydych chi'n ystyried bod unrhyw grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchodedig a fyddai naill ai'n elwa neu'n cael eu hanfanteisio gan unrhyw un o'r cynigion? Os felly, rhowch ddata neu dystiolaeth berthnasol.

Na.

Nodwn y bydd angen i Gronfa Bensiwn Gwynedd a PPC allu darparu'r holl gyfathrebiadau yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.



Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cymru a Lloegr): 'Fit for the Future'

Mae'r ymateb hwn i ymgynghoriad "Fit for the Future" CPLIL wedi'i baratoi gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Rydym yn cefnogi cyfeiriad y cynigion, i gwblhau trosglwyddo'r holl asedau sy'n weddill i reoli cronfeydd yn gyflym a'r bwriad i gynyddu manteision cronfeydd buddsoddiad CPLIL ymhellach, gan gynnwys cynyddu'r ffocws ar fuddsoddiad lleol a chefnogi twf y DU.

Rydym yn croesawu'r cyfle i roi mewnbwn i'r ymgynghoriad. Yn ein hymateb rydym wedi nodi lle rydym yn cefnogi cynigion yn llawn a lle mae gennym bryderon am y buddion, ymarferoldeb ac amseru. O ran amseru, bydd yn bwysig i'r llywodraeth (a) ganiatáu amser i lywodraethu awdurdodau lleol gymeradwyo newidiadau i Gytundebau Rhyng-Awdurdodau presennol sydd, mewn rhai achosion, angen cymeradwyaeth Cyngor Llawn; a (b) cadarnhau cynigion terfynol cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben gan y gallai fod yn anodd i awdurdodau lleol gymeradwyo camau gweithredu a dyrannu adnoddau ariannol ychwanegol i gefnogi gweithredu, gan gynnwys penodi personél cymwys priodol ar gyfer cwmni cronfeydd rheoledig yr FCA.

Mae PPC wedi ymrwymo i ddatblygu ei fodel gweithredu cronfeydd ymhellach i gydymffurfio'n llawn â gofynion y llywodraeth unwaith y caiff ei gadarnhau. Rydym yn datblygu cynlluniau i PPC barhau fel cronfa annibynnol, mewn sefyllfa unigryw i ddarparu buddion i aelodau'r cynllun CPLIL yng Nghymru a dod â buddion ehangach drwy fuddsoddiad lleol yng Nghymru. Mae gwaith eisoes ar y gweill.

Y Cyng. Elwyn Williams, Cadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC

Dros ac ar ran PPC

	Cwestiwn	Ymateb
Cronni CPLIL		
1	Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn i bob cronfa cyd-fuddsoddi ddiwallu'r safonau gofynnol o gronni a nodir uchod?	Cytuno i raddau. Edrych ar bob un o'r safonau gofynnol yn eu tro: 1) Cwmni cronfa cyd-fuddsoddi¹ - "cronfeydd cyd-fuddsoddi ... <i>â'r gofyn i gael eu sefydlu fel cwmnïau rheoli buddsoddi sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr FCA</i>" Credwn y gellir cyflawni manteision cyd-fuddsoddi gan ddefnyddio model gweithredu cronfeydd presennol PPC. Mae ychwanegu cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi i'r strwythur yn ychwanegu haen sylweddol arall o gost a chymhlethdod gweithredu. 2) Gweithredu'r Strategaeth – "Awdurdodau Gweinyddu (AG) ... <i>â'r gofyn i ddirprwyo gweithredu'r strategaeth honno yn llawn i'r gronfa</i>" Oes. Ar hyn o bryd mae PPC yn gweithredu ar y sail hon trwy weithredwyr y Gronfa ar gyfer asedau rhestredig a heb eu rhestru a thrwy benodi Russell Investment a dyranwyr cronfeydd sydd heb eu rhestru. 3) Cyngor strategaeth - "AG ... <i>â'r gofyn i gymryd prif gyngor ar eu strategaeth fuddsoddi o'r gronfa.</i>" Mae PPC yn rhannu barn y SAB y dylai awdurdodau gweinyddu gadw'r opsiwn o gymryd cyngor annibynnol a gallu adolygu unrhyw gyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd. Byddai hyn yn helpu i leddfu pryderon ynghylch y potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i Gwmni'r Gronfa Cyd-fuddsoddi. Gweler ein hymateb i C5 am fwy o fanylion. 4) Asedau etifeddol - "<i>trosglwyddo asedau etifeddol i reolwyr y gronfa.</i>" Mae gennym bryderon am risgiau posibl yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu (AG) drosglwyddo'r holl asedau etifeddol anhylifol i reolwyr cwmni cronfeydd cyd-fuddsoddi ar unwaith. Efallai y bydd ychydig neu ddim budd economaidd wrth wneud hynny, ac rydym yn credu y gallai mewn rhai achosion fod yn fwy diogel parhau i reoli'r rhediad i

		aeddfedrwydd asedau etifeddol heb eu rhestru yn lleol oherwydd bod gan swyddogion AG lleol a'u hymgynghorwyr wybodaeth hanesyddol o'r buddsoddiadau penodol (e.e. amrywiol 'vintages' o fuddsoddiadau marchnad breifat) a phrosesau sefydledig i'w rheoli (gan gynnwys, er enghraifft, rheoli galwadau cyfalaf). Os yw'r llywodraeth yn gofyn am drosglwyddo rheolaeth asedau etifeddol i'r cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi bydd angen sicrhau bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn gwarchod asedau etifeddol ar ran perchnogion mewn ffordd sy'n osgoi niwed economaidd i'r Cronfeydd maent yn berchen arnynt e.e. trwy osgoi gwerthu asedau heb eu rhestru ar adeg amhriodol. Dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ymgynghori ag AG ar amser a dull priodol o drosglwyddo asedau etifeddol i gerbydau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Gweler ein hymateb i C8. 5) Buddsoddiadau lleol – "<i>Cronfeydd cyd-fuddsoddi ... â'r gofyn i ddatblygu'r gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy ar fuddsoddiadau lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath.</i>" Mae PPC eisoes yn asesu buddsoddiadau lleol ar ran yr AG gan ddefnyddio ei reolwyr asedau heb eu rhestru ac ymgynghorwyr allanol eraill. Gall sefydlu tîm mewnol parhaol fod yn gost anghymesur o ystyried amllder ac amrywiaeth cyfleoedd buddsoddi o'r fath. Bydd PPC yn parhau â'i ddull presennol (trwy gwmni'r gronfa newydd) ac yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â chronfeydd cyd-fuddsoddi eraill mewn perthynas â chyfleoedd buddsoddi lleol / effaith.
2	Ydych chi'n cytuno y dylai'r strategaeth fuddsoddi a osodwyd gan yr awdurdod gweinyddu gynnwys amcanion buddsoddi lefel uchel, ac yn ddewisol, dyraniad asedau strategol lefel uchel, gyda'r holl weithgareddau gweithredu wedi'u dirprwyo i'r gronfa?	Dylai, ond nid yw'n ddigon i AG osod yr amcanion buddsoddi lefel uchel a dyrannu asedau strategol lefel uchel (SAA) yn unig. Dylai'r strategaeth fuddsoddi a osodwyd gan AG gynnwys 1) Amcanion lefel uchel 2) Dyrannu asedau strategol lefel uchel 3) Manylion ychwanegol gan gynnwys, er enghraifft, (i) dewisiadau dychweliad risg (gall fod amrywiadau mawr rhwng gwahanol fathau o fandad o fewn yr un dosbarth asedau); (ii) dewisiadau* ar gyfer buddsoddiad goddefol a gweithredol; (iii) anghenion strategol mewn perthynas â llif arian (bydd rhai cronfeydd unigol yn negyddol);

		(iv) strategaethau buddsoddi penodol i gyflogwyr lle mae'r rhain yn rhan o Ddatganiad Strategaeth Ariannu'r gronfa; (v) targedau sero net ar gyfer ei fuddsoddiadau. *Yn ffigwr 1 yr ymgynghoriad, o dan "amcanion buddsoddi" sy'n benderfyniad ar gyfer awdurdodau gweinyddu, mae'r llywodraeth yn cyfeirio at "ddewisiadau buddsoddi" yn benodol. Rydym yn cytuno y dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ymgymryd â'r gweithgaredd sy'n ofynnol i weithredu'r strategaeth fuddsoddi a bennir gan bob Awdurdod Gweinyddu yn y gronfa. Mae PPC eisoes yn gweithredu ar y sail hon.
3	Ydych chi'n cytuno y byddai strategaeth fuddsoddi ar y sail hon yn ddigonol i fodloni dyletswydd ymddiriedol yr awdurdod gweinyddu?	Na, mae ystyriaethau ychwanegol ar gyfer AG wrth gyflawni eu dyletswydd ymddiriedol. Dyletswydd ymddiriedol craidd yr AG yw cwrdd â thaliadau pensiwn pan fyddant yn ddyledus. Agwedd hanfodol ar hyn yw gallu bodloni gofynion llif arian, yn ddelfrydol osgoi gwerthu asedau gorfodol. Felly, mae manyleb gofynion llif arian yn hanfodol i fodloni cyfrifoldebau ymddiriedol. Mae agweddau pwysig eraill ar ddyletswydd ymddiriedol yn cynnwys: - penderfyniadau ar uchelgeisiau sero net (a all fod yn wahanol o gronfa i gronfa); - gwneud y mwyaf o ddychweliadau yn amodol ar y goddefgarwch risg y cytunwyd arno fel rhan o'r Datganiad Strategaeth Ariannu; a - dewisiadau lleol ar gyfer buddsoddiad gweithredol vs goddefol (hefyd yn gysylltiedig â goddefgarwch risg a bennwyd yn lleol).
4	Beth yw eich barn ar y templed arfaethedig ar gyfer dyrannu asedau strategol yn y datganiad strategaeth fuddsoddi?	Nid oes digon o fanylder yn y templed arfaethedig. Mae elfennau coll o'r templed yn cynnwys dewisiadau AG mewn perthynas â: (i) dewisiadau dychweliad risg (gall fod amrywiadau mawr rhwng mathau mandad o fewn dosbarth buddsoddi); (ii) buddsoddiad gweithredol v goddefol;

		(iii) uchelgeisiau sero net; (iv) cyfateb atebolrwydd; a (v) penodi dyraniad buddsoddiad lleol.
5	Ydych chi'n cytuno y dylai'r gronfa ddarparu cyngor buddsoddi ar strategaethau buddsoddi ei AG partner? Ydych chi'n gweld y byddai angen rhagor o gyngor neu fewnbwn er mwyn gallu ystyried cyngor a ddarperir gan y gronfa cyd-fuddsoddi – os felly, ym mha ffurf yr ydych chi'n rhagweld hynny?	Mae PPC yn rhannu barn y SAB* y dylai awdurdodau gweinyddu gadw'r opsiwn o gymryd cyngor annibynnol a gallu adolygu unrhyw gyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Byddai hyn yn helpu i leddfu pryderon ynghylch y potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i Gwmni'r Gronfa Cyd-fuddsoddi. (*Ymateb SAB i'r ymgynghoriad: <i>“mae gan y Bwrdd rai pryderon am arian sy'n ofynnol i (yn hytrach na dewis) gymryd cyngor buddsoddi gan y gronfa cyd-fuddsoddi... Pan fydd cronfa yn cymryd ei phrif gyngor gan y gronfa cyd-fuddsoddi, a chyngor annibynnol ar wahân gan ffynhonnell arall, yna ni ddylai fod unrhyw awgrym bod yn ofynnol iddi ddilyn cyngor y gronfa cyd-fuddsoddi lle maent yn wahanol.”</i>) Mae gwerth mewn darparu cyngor strategaeth fuddsoddi yn annibynnol oddi wrth ddarparwr datrysiadau buddsoddi (cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi). Mae potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i'r cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn y dull a gynigir gan y llywodraeth. Enghraifft fyddai cyngor sydd wedi'i gyfyngu i ddosbarthiadau asedau a datrysiadau buddsoddi sydd ar gael i'r gronfa cyd-fuddsoddi ar hyn o bryd lle nad yw'r gronfa cyd-fuddsoddi wedi datblygu'r datrysiad buddsoddi sy'n ofynnol gan yr AG er mwyn diwallu eu rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus a'u cyfrifoldeb ymddiriedol e.e. diffyg asedau sy'n cynhyrchu incwm priodol sy'n ofynnol gan AG sydd mewn sefyllfa llif arian negyddol. Mae defnyddio ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol o gwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi hefyd yn galluogi adolygiad a newid rheolaidd drwy gaffael cystadleuol, gan annog cystadleuaeth ac arloesedd y farchnad sy'n darparu canlyniadau gwell i gronfeydd CPLIL a'u haelodau. Rhaid i'r llywodraeth ganiatáu i AG feirniadu unrhyw gyngor buddsoddi maent yn ei derbyn gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr annibynnol os oes angen. Dylai'r llywodraeth ganiatáu rhyddid i AG ddewis pwy sy'n darparu cymorth cynghori i feirniadu a herio cyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Efallai na fydd defnyddio "unigolion" annibynnol yn ddigonol. Dylai Awdurdodau Gweinyddu fod yn rhydd i dderbyn cyngor gan gwmnïau ymgynghori a all ddarparu ystod lawn o arbenigwyr pwnc, galluoedd ymchwil cyfoes a chynhwysfawr, cyngor a reoleiddir gan yr FCA lle bo angen a chyngor a adolygir gan gymheiriaid gydag yswiriant indemniad proffesiynol priodol ac yswiriant atebolrwydd.

		Mae angen i AG fod yn fodlon bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn gallu darparu'r ystod a'r ansawdd gofynnol o gyngor a bod gan dimau cyngori cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi y profiad, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth briodol o rwymedigaethau CPLIL. Fel y mae'r llywodraeth yn nodi yn yr ymgynghoriad, ni fydd y gallu hwn ar waith erbyn mis Mawrth 2026 a bydd angen ei ddatblygu dros amser. Yn y cyfamser, dylai'r llywodraeth ganiatáu i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi allanoli'r gwaith i ymgynghorwyr buddsoddi CPLIL profiadol.
6	Ydych chi'n cytuno y dylai pob cronfa cyd-fuddsoddi gael ei sefydlu fel cwmnïau rheoli buddsoddi a awdurdodwyd gan yr FCA, a'u hawdurdodi i ddarparu cyngor perthnasol?	Rydym wedi ymrwymo i sefydlu cwmni rheoli buddsoddi a reolir gan yr FCA ("cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi") os oes angen gwneud hynny. Wedi dweud hynny, mae model gweithredu presennol PPC ar hyn o bryd yn cyflawni amcanion cyd-fuddsoddi'r llywodraeth heb gost ychwanegol sylweddol a chymhlethdod cwmni cronfa sy'n eiddo i AG. Nid yw'n glir y bydd hyn yn darparu unrhyw fuddion ariannol uniongyrchol i wrthbwysu costau ychwanegol. Mae gan gyngor buddsoddi annibynnol fanteision o'i gymharu â chyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi oherwydd (i) potensial ar gyfer gwrthdaro gwirioneddol neu ganfyddedig i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi; (ii) y gallu i adolygu a newid cynghorwyr annibynnol o bryd i'w gilydd; (iii) cystadleuaeth sy'n gyrru arfer gorau, arloesedd ac effeithlonrwydd sydd o fudd i gronfeydd CPLIL; a (iv) yr anhawster i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ddatblygu'r ystod lawn o alluoedd a phrofiad CPLIL (gan gynnwys dealltwriaeth o rwymedigaethau lleol ac anghenion llif arian a ragwelir) a ddarperir gan gwmnïau ymgynghori ar hyn o bryd. Mae gwerth cael rhywfaint o waith wedi'i ganoli a'i wneud ar y cyd ar lefel cronfa e.e. adolygu a newid rheolwyr, datblygu polisiau a phrosesau mewn perthynas â buddsoddi cyfrifol a phleidleisio ac ymgysylltu. O dan y model cronfa PPC presennol, mae'r holl weithgareddau hyn eisoes yn cael eu cynnal ar y cyd ar lefel cronfa cyd-fuddsoddi gyda chefnogaeth darparwyr gwasanaeth allanol.
7	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i drosglwyddo'r holl asedau rhestredig i gerbydau cyd-fuddsoddi a reolir gan gwmni eu cronfa cyd-fuddsoddi?	Dylent, ar gyfer asedau rhestredig a reolir yn weithredol. Mae gan PPC a chronfeydd CPLIL eraill eisoes fuddsoddiadau goddefol mewn cerbydau cyd-fuddsoddi nad ydynt yn cael eu rheoli gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi (megis polisiau bywyd). Ar gyfer buddsoddiadau goddefol rhestredig, mae trefniadau cyfredol ar gyfer PPC a chronfeydd eraill yn gost-effeithiol iawn ("buddion croesi" a buddion graddfa eraill a gyflawnir gan reolwyr goddefol sy'n fwy na'r rhai y gellid eu cyflawni mewn perthynas â buddsoddiadau goddefol cronfa sengl yn unig). Os bydd trosglwyddo buddsoddiadau goddefol i gerbydau a reolir gan gronfeydd yn cael ei orfodi, bydd AG yn wynebu costau ychwanegol (gan gynnwys costau pontio asedau sylweddol) heb ddigolledu buddion.

8	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i drosglwyddo buddsoddiadau anhylifol etifeddol i reolwyr y gronfa cyd-fuddsoddi?	Ni ddylai fod unrhyw fuddsoddiad newydd mewn asedau heb eu rhestru / anhylifol mewn cerbydau nad ydynt mewn cronfa cyd-fuddsoddi yn y dyfodol. Mae risgiau posibl yn ei gwneud yn ofynnol i bob AG drosglwyddo'r holl asedau anhylifol etifeddol i reolwyr cwmni cronfa cyd-fuddsoddi ar unwaith ym mis Mawrth 2026. Mae'n bosibl nad oes llawer o fudd economaidd mewn gwneud hynny, ac mewn rhai achosion efallai y bydd yn fwy diogel parhau i reoli rhediad i aeddfedrwydd asedau etifeddol heb eu rhestru yn lleol gan fod gan swyddogion AG lleol wybodaeth hanesyddol o'r buddsoddiadau penodol (e.e. amrywiol 'vintages' o fuddsoddiadau marchnad breifat) a phrosesau sefydledig i'w rheoli (gan gynnwys, er enghraifft, monitro a rheoli galwadau cyfalaf). Er mwyn mynd i'r afael â'r risg bosibl hon, efallai y byddai'n well caniatáu i AG a'u hymgynghorwyr reoli buddsoddiadau o'r fath i aeddfedrwydd neu sicrhau bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn parhau i dynnu ar wybodaeth a phrofiad lleol o'r asedau penodol. Os yw'r llywodraeth yn gofyn am drosglwyddo rheoli asedau etifeddol i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi, bydd yn hanfodol sicrhau bod cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi yn ymarfer y lefel briodol o ofal dyledus. Yn benodol, bydd angen sicrhau bod cronfeydd cyd-fuddsoddi yn gwarchod asedau etifeddol ar ran perchnogion mewn ffordd sy'n osgoi niwed economaidd i'r Cronfeydd maent yn berchen arnynt e.e. trwy osgoi gwerthu asedau heb eu rhestru ar adeg amhriodol. Dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi ymgynghori ag AG ar amser a dull priodol o drosglwyddo asedau etifeddol i gerbydau cronfeydd cyd-fuddsoddi.
9	Pa gapasiti ac arbenigedd y byddai angen i'r cronfeydd cyd-fuddsoddi ddatblygu i ymgymryd â rheoli asedau etifeddol y cronfeydd partner a phryd y gellid cyflawni hyn?	Gweler yr ymateb i C8. Mae'r wybodaeth angenrheidiol am asedau etifeddol penodol heb eu rhestru a'r prosesau sefydledig i'w rheoli gyda'r AG ar hyn o bryd sy'n berchen ar yr asedau etifeddol hyn. Gall symud rheolwyr i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi nad oes ganddynt y wybodaeth hanesyddol hon o'r buddsoddiadau hyn a phrosesau sefydledig i'w rheoli ychwanegu risg a chost. Os yw'r llywodraeth yn gorfodi trosglwyddo rheoli asedau etifeddol i gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi, bydd PPC yn penodi swyddog cronfa gyda chyfrifoldeb am asedau etifeddol. Byddai gan bob AG PPC Gytundeb Rheoli Buddsoddi gyda chwmni cronfa cyd-fuddsoddi PPC mewn perthynas â'i asedau etifeddol ei hun. Bydd yr IMA yn grymuso cwmni cronfa cyd-fuddsoddi PPC i reoli'r asedau hynny gyda gofal a diwydrwydd priodol ar ran yr AG y maent yn perthyn iddo. Bydd asedau etifeddol yn parhau i gael eu dyrannu i'r AG hwnnw nes y byddant yn aeddfedu ac yn cael eu trosglwyddo i ddatrysiadau cronfa cyd-fuddsoddi. Byddai'r swyddog cronfa cyd-fuddsoddi hwn sy'n gyfrifol am asedau etifeddol yn cael ei gynorthwyo gan reolwyr buddsoddi rhestredig a heb eu rhestru i ystyried amseru a dulliau priodol o waredu asedau etifeddol a cherbydau cyd-fuddsoddi priodol ar gyfer buddsoddi'r enillion gwerthu. Byddai cymorth hefyd yn cael ei dderbyn gan ymgynghorwyr arbenigol priodol.

		Byddai'r swyddog cronfa cyd-fuddsoddi sy'n gyfrifol yn ymgysylltu â pherchnogion asedau ac ymgynghori â nhw ar amseriad arfaethedig a dulliau gwaredu asedau etifeddol, a'r cerbyd cyd-fuddsoddi arfaethedig i gymryd enillion gwerthu, yn unol â'r strategaeth fuddsoddi a benderfynwyd yn lleol gan yr AG. Mae'n bwysig nodi y bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i drosglwyddo'r holl asedau etifeddol. Er enghraifft, byddai daliadau ecwiti preifat presennol yn debygol o gael eu dal tan eu haeddfedrwydd naturiol yn hytrach na chael gwaredu cynharach mewn marchnadoedd eilaidd ar brisiadau disgownt a fyddai'n dinistrio gwerth i'r perchennog asedau.
10	A oes gennych farn ar yr amserlen ddangosol ar gyfer gweithredu, gyda chronfeydd cyd-fuddsoddi yn mabwysiadu'r nodweddion arfaethedig a chyd-fuddsoddi wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2026?	Er bod PPC wedi ymrwymo i gwrdd ag amserlenni'r llywodraeth, credwn fod yr amserlenni yn heriol iawn. Yn benodol, mae'r amserlen a awgrymir yn anafteisio cronfeydd cydfuddsoddi sydd ar hyn o bryd â modelau gweithredu gwahanol i'r hyn sy'n cael ei ffafrio gan y llywodraeth erbyn hyn. Gallai amserlen sy'n rhy fyr hefyd arwain at ddulliau gweithredu is-optimaidd neu dan fygythiad y gellid, gyda mwy o amser, eu hosgoi. Mae'n bwysig y dylai'r amserlen ar gyfer gweithredu ddarparu ar gyfer amserlenni cymeradwyo llywodraethu awdurdodau lleol. Ar gyfer pob un neu'r rhan fwyaf o gronfeydd, mae newidiadau sy'n gofyn am gymeradwyaeth AG (gan Gynghorau llawn a/neu bwyllgorau S101) yn debygol. Mae PPC yn cael ei lywodraethu gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) cyfreithiol rhwymol sy'n cynnwys rhai materion a gedwir yn ôl sy'n gofyn am gytundeb lleol. Bydd angen dad-ddirwyn a newid hyn. Gall fod yn anodd neu'n amhosibl i Awdurdodau Gweinyddu gymeradwyo camau gweithredu gyda chostau materol (megis llogi personél ar gyfer cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi) yn absenoldeb rheoliadau (ar ffurf ddrafft o leiaf). Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau mewn rheoliadau y mae'r llywodraeth yn eu gwneud yn seiliedig ar yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol i atal oedi cymeradwyo awdurdodau lleol a allai ei gwneud hi'n amhosibl cwrdd ag amserlen y llywodraeth.
11	Pa sgôp sydd ar gael i gynyddu cydweithredu rhwng cronfeydd cyd-fuddsoddi, gan gynnwys rhannu arbenigeddau neu arbenigedd lleol penodol? A oes unrhyw rwystrau ar gyfer cydweithio o'r fath?	Mae PPC yn agored i gyfleoedd i gydweithio ar ddatrysiadau dosbarth asedau penodol a bydd yn parhau i gael deialog â chronfeydd eraill a allai nodi meysydd o fudd i'r ddwy ochr. Byddai amserlen weithredu hirach yn caniatáu archwilio posibiliadau o'r fath yn briodol. Bydd amserlenni byr ar gyfer gweithredu yn achosi i gronfeydd cyd-fuddsoddi flaenoriaethu'r camau sydd eu hangen i sicrhau bod eu cronfa cyd-fuddsoddi eu hunain yn cydymffurfio â gofynion newydd trwy ba bynnag ffordd y mae'r amserlen yn ei ganiatáu.

12	Pa botensial sydd ar gyfer cydweithio rhwng cronfeydd partner yn yr un gronfa cyd-fuddsoddi ar faterion fel gweinyddu a hyfforddiant? A oes meysydd eraill lle gallai mwy o gydweithio fod yn fuddiol?	Credwn fod potensial ar gyfer cydweithio rhwng cronfeydd partner yn yr un gronfa cyd-fuddsoddi mewn meysydd fel gweinyddu aelodau a hyfforddiant. Mae gweithredu cydweithredu ar weinyddiaeth aelodau yn ymarfer nad yw'n ddibwys ac mae'n annhebygol y gellid ei symud ymlaen ochr yn ochr â'r cam nesaf o gyd-fuddsoddi. Mae gan PPC gynllun hyfforddi blynyddol eisoes ar gyfer Awdurdodau Gweinyddu.
Buddsoddiad Lleol		
13	Beth yw eich barn chi ar y diffiniad priodol o 'fuddsoddiad lleol' at ddibenion adrodd?	Mae PPC yn cydnabod disgwyliad y llywodraeth y dylid ystyried "lleol" ledled y DU, gan ddefnyddio asedau CPLIL i gefnogi twf y DU. Ar yr un pryd, o ystyried ei sefyllfa unigryw a'i gymhelliant i gefnogi buddsoddiad yng Nghymru, a dyna le bydd PPC yn blaenoriaethu ei hymdrechion buddsoddi lleol, gan adeiladu ar waith a wnaed hyd yma. Byddem yn disgwyl i fuddsoddiadau "lleol" ganolbwyntio ar fuddsoddiadau heb eu rhestru (isadeiledd, ecwiti preifat, ac ati), gan gynnwys rhai cyfleoedd buddsoddi llai sydd â photensial i gael effaith a gwerth uchel yn lleol. Felly, byddem yn disgwyl i adrodd eithrio buddsoddiadau mewn ecwiti, bondiau a chredyd rhestredig yn y DU (ond yn cynnwys eiddo tiriog – bydd gan Gronfa Effaith PPC darged Cymru). Bydd PPC yn adrodd am fuddsoddiad lleol yng Nghymru a buddsoddiadau lleol yng ngweddill y DU ar wahân.
14	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu weithio gyda'u Hawdurdod Cyfunol, Awdurdod Cyfunol Maerol, Awdurdod Sir Cyfunol, Cyd-bwyllgor Corfforedig neu gydag awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle nad yw'r rhain yn bodoli, i nodi cyfleoedd buddsoddi lleol addas, ac i ystyried cynlluniau twf lleol a blaenoriaethau twf lleol wrth osod eu strategaeth fuddsoddi? Sut fydddech chi'n rhagweld y byddai'ch cronfa cyd-fuddsoddi yn ceisio cyflawni hyn?	Dylent. Mae PPC yn bwriadu penodi swyddog gyda chyfrifoldeb am gyfleoedd buddsoddi lleol. Bydd eu cyfrifoldebau yn cynnwys cysylltu ag awdurdodau lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i nodi cyfleoedd buddsoddi posibl sy'n cefnogi blaenoriaethau twf lleol. Bydd pennaeth buddsoddiad lleol PPC yn cael cymorth gan reolwyr buddsoddi PPC sydd heb eu rhestru, fydd yn cefnogi DD ar gyfer cyfleoedd perthnasol mewn gwahanol ddosbarthiadau asedau (isadeiledd, dyled breifat, credyd preifat, ac ati). Bydd ymgynghorwyr allanol arbenigol hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer DD ar gyfleoedd lleol penodol nad ydynt yn cyd-fynd â mandadau rheolwyr y gronfa cyd-fuddsoddi sydd heb eu rhestru.

15	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu nodi eu hamcanion ar fuddsoddiad lleol, gan gynnwys amrediad targed yn eu datganiad strategaeth fuddsoddi?	Dylent. Fel y nodwyd yn gynharach, dylid newid y templed arfaethedig ar gyfer AG i bennu strategaeth fuddsoddi a benderfynwyd yn lleol i gynnwys manyleb yr amrediad targed ar gyfer buddsoddiad lleol.
16	Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn am gronfeydd cyd-fuddsoddi i ddatblygu'r gallu i gynnal diwydrwydd dyladwy ar gyfleoedd buddsoddi lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath?	Dylid. Mae PPC yn bwriadu penodi swyddog gyda chyfrifoldeb penodol am gyfleoedd buddsoddi lleol (gweler C14) O ystyried y niferoedd cymedrol tebygol o gyfleoedd o'r fath, efallai na fydd yn gwneud synnwyr cael yr holl sgiliau angenrheidiol fel penodi i rolau mewnol (buddsoddiad, diwydrwydd dyladwy ac arbenigedd a phrofiad cyfreithiol ar draws ystod eang] o fathau o fuddsoddiadau lleol / effaith). Yn lle hynny, dylai cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi allu tynnu ar arbenigwyr allanol profiadol perthnasol i asesu cyfleoedd a chynnal DD cyn bwrw ymlaen. Mewn theori, mae hwn yn faes lle gall cydweithio rhwng cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi fod yn ddefnyddiol (e.e. DD a rennir ar gyfer cyd-fuddsoddi gan wahanol gwmnïau cronfeydd). Yn ymarferol, efallai na fydd hyn yn ymarferol i PPC o ystyried ei nod o ganolbwyntio ar fuddsoddiad lleol yng Nghymru.
17	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu adrodd ar eu buddsoddiadau lleol a'u heffaith yn eu hadroddiadau blynyddol? Beth ddylid ei gynnwys yn yr adroddiadau hyn?	Dylent. Yn ogystal ag adrodd ar berfformiad buddsoddi arferol, dylai adrodd ar fuddsoddiad lleol gynnwys y manteision a gyflawnir gan y buddsoddiad (economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol).
Llywodraethu cronfeydd		
18	Ydych chi'n cytuno â'r dull cyffredinol o lywodraethu, sy'n adeiladu ar argymhellion Llywodraethu Da y SAB?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
19	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi strategaeth lywodraethu a	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.

	hyfforddi, gan gynnwys polisi gwrthdaro buddiannau?	
20	Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn â phenodi uwch swyddog CPLIL?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
21	Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau gweinyddu fod yn ofynnol i baratoi a chyhoeddi strategaeth weinyddol?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
22	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid y ffordd y mae strategaethau ar lywodraethu a hyfforddiant, cyllid, gweinyddu a buddsoddiadau yn cael eu cyhoeddi?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
23	Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn ag adolygiadau llywodraethu annibynnol bob dwy flynedd? Beth yw eich barn ar y fformat a'r meini prawf asesu?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
24	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fynnu bod gan aelodau'r pwyllgor pensiynau wybodaeth a dealltwriaeth briodol?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.
25	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i fynnu bod Awdurdodau Gweinyddu yn nodi yn eu strategaeth llywodraethu a hyfforddiant sut y byddant yn sicrhau bod y gofynion newydd ar wybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu bodloni?	Amherthnasol. Cyfeiriwch at ymatebion gan awdurdodau gweinyddu CPLIL unigol yng Nghymru.

26	Beth yw eich barn chi p'un a ddylid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu benodi person annibynnol fel ymgynghorydd neu aelod o'r pwyllgor pensiwn, neu ffyrdd eraill o gyflawni'r nod?	Mae ein barn ar hyn yn debyg i'r rhai ar C5. Dylid, dylai awdurdodau gweinyddu benodi ymgynghorydd / cwmni cynghori annibynnol (nid o reidrwydd yn unigolyn) i ddarparu cyngor i'r pwyllgor pensiynau (heb gael ei benodi fel aelod o'r pwyllgor). O ystyried eu cyfrifoldebau ymddiriedol, mae'n bwysig bod AG yn rhydd i gymryd cyngor annibynnol. Dylai rhan o'r rôl hon gynnwys beirniadu a herio unrhyw gyngor a ddarperir gan gwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi. Dylai AG fod yn rhydd i ddewis cymorth cynghori annibynnol gan unigolion neu gwmnïau ymgynghori. Fodd bynnag, efallai na fydd defnyddio "unigolion" annibynnol yn ddigonol. Dylai Awdurdodau Gweinyddu fod yn rhydd i dderbyn cyngor gan gwmnïau ymgynghori a all ddarparu ystod lawn o arbenigwyr pwnc, galluoedd ymchwil cyfoes a chynhwysfawr, cyngor a reoleiddir gan yr FCA lle bo angen a chynghor a adolygir gan gymheiriaid gydag yswiriant indemniad proffesiynol priodol ac yswiriant atebolrwydd.
Llywodraethu cronfeydd		
27	Ydych chi'n cytuno y dylai byrddau cwmnïau cronfeydd cyd-fuddsoddi gynnwys un neu ddau o gynrychiolwyr cyfranddalwyr?	Mae'n hanfodol y dylai'r AG sy'n gyd-gyfranddalwyr cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi a chleientiaid / buddsoddwyr gael cynrychiolaeth ar fwrdd cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi. Yn ddelfrydol, ni fyddai nifer y cynrychiolwyr cyfranddalwyr yn cael eu hamodi. Bydd angen i'r FCA weld cyfansoddiad arfaethedig a chylch gorchwyl Bwrdd cwmni'r gronfa fel rhan o'r broses ar gyfer awdurdodi cwmni'r gronfa cyd-fuddsoddi. Yr FCA ddylai fod yn feirniad o ran cymysgedd a'r sgiliau priodol o gynrychiolwyr aelodau'r Bwrdd.
28	Beth yw eich barn chi ar y ffordd orau o sicrhau bod barn a diddordebau aelodau yn cael eu hystyried gan y cronfeydd cyd-fuddsoddi?	Dylai hyn fod trwy lywodraethu cronfa cyd-fuddsoddi ar ochr y cleient. Mae gan bob cronfa cyd-fuddsoddi nifer o grwpiau llywodraethu ochr y cleientiaid, yn aml gan gynnwys Cyd-bwyllgor Cadeiryddion pwyllgorau A101 yr AG. Mewn llawer neu'r rhan fwyaf o gronfeydd cyd-fuddsoddi, mae cynrychiolaeth o aelodau'r cynllun eisoes. Mae hyn yn darparu sianel ar gyfer llais a chynrychiolaeth aelodau'r cynllun wrth oruchwyllo'r gronfa a'r cerbydau buddsoddi mewn agweddau sy'n berthnasol i aelodau'r cynllun (e.e. perfformiad, polisïau RI, ac ati)
29	Ydych chi'n cytuno y dylai cronfeydd cyd-fuddsoddi adrodd yn gyson a gyda mwy o dryloywder, gan gynnwys perfformiad a chostau? Pa fetrigau ydych chi'n meddwl	Dylent, rydym yn cytuno y dylai fod adroddiadau tryloyw a chyson ar berfformiad a chostau.

	fyddai'n fuddiol i'w cynnwys yn yr adroddiadau hyn?	Mae'r rhan fwyaf o gronfeydd cyd-fuddsoddi eisoes wedi datblygu dulliau gweddol dda i adrodd ar berfformiad buddsoddi i fuddsoddwyr (dychweliadau buddsoddiadau, costau) ac mae gan rai cronfeydd cyd-fuddsoddi hefyd DPA darparu gwasanaeth sy'n cael eu monitro yn rheolaidd. Dylai'r rhain gael eu datblygu ymhellach. Dylai adrodd costau gynnwys nid yn unig costau rheoli buddsoddiadau, ond tryloywder llawn costau cyd-reoli cronfeydd cyd-fuddsoddi a chostau holl wasanaethau trydydd parti (swyddogaethau allanol, ymgynghorwyr, adneuo, cadw a phob costau darparwr gwasanaeth eraill). Dylai hyn fod mewn termau £ a chanran yr asedau. Dylid cyhoeddi data costau sy'n dangos dadansoddiad rhwng costau cwmni cronfa cyd-fuddsoddi, costau rheoli buddsoddiadau (mewnol ac allanol) a chostau eraill mewn ffordd sy'n galluogi cymariaethau teg. Dylid meincnodi perfformiad buddsoddi yn erbyn amcanion mandad priodol ac yn erbyn rheolwyr buddsoddi grŵp cymheiriaid. Dylid cynnal cymariaethau meincnod cost buddsoddi hefyd o bryd i'w gilydd. Rydym yn cydnabod bod angen gofal ar gymariaethau grwpiau cymheiriaid i sicrhau cymariaethau teg, tebyg. Gall darparwyr gwasanaeth meincnod proffesiynol ddarparu dadansoddiad o'r fath o bryd i'w gilydd i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
Effeithiau Cydraddoldeb		
30	Ydych chi'n ystyried bod unrhyw grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchodedig a fyddai naill ai'n elwa neu'n cael eu hanfanteisio gan unrhyw un o'r cynigion? Os felly, rhowch ddata neu dystiolaeth berthnasol.	Na. Nodwn y bydd angen i PPC allu darparu'r holl gyfathrebiadau yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.



CPLIL "Fit for the Future"

Cyflwyniad Partneriaeth Pensiwn Cymru
i'r Llywodraeth:

Cronfa CPLIL annibynnol i Gymru

Chwefror 2025

Cyflwyniad Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r Llywodraeth: cronfa CPLIL annibynnol i Gymru

Mae'r cyflwyniad hwn wedi'i baratoi gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ac mae'n ymateb i gais y Llywodraeth am gynigion sy'n bodloni gofynion ymgynghoriad CPLIL "Fit for the Future" (Tachwedd 2024) a'r "guidance for pool submissions" a nodir yn llythyr y Gweinidogion at PPC dyddiedig 2 Rhagfyr 2024.

Mae PPC wedi ymrwymo ac yn cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth, gan gynnwys trosglwyddo'r holl asedau sy'n weddill i reoli cronfeydd yn gyflym a'r bwriad i gynyddu manteision cronni buddsoddiadau CPLIL ymhellach, gan gynnwys cynyddu'r ffocws ar fuddsoddiad lleol a chefnogi twf y DU.

Rydym yn gwerthfawrogi cydnabyddiaeth y Llywodraeth yn yr ymgynghoriad (paragraff 62) bod ystyriaethau unigryw mewn perthynas â Chymru sy'n cefnogi parhau â chronfa fuddsoddi ar wahân ar gyfer yr 8 Awdurdod Gweinyddu CPLIL yng Nghymru fel cenedl ddatganoledig. Rydym yn cynnig addasu ein model gweithredu, gan gynnwys sefydlu cwmni rheoli buddsoddi a reolir gan yr FCA ("IM Co"), i fodloni holl ofynion y Llywodraeth.

Mae manylion ein cynlluniau i PPC i barhau fel cronfa ar wahân, mewn sefyllfa unigryw i ddarparu buddion i aelodau'r cynllun CPLIL yng Nghymru, ac i barhau i ddod â buddion ehangach drwy fuddsoddiad lleol yng Nghymru a gweddill y DU wedi'u nodi yn y cyflwyniad hwn ac maent yn cyd-fynd â meini prawf y Llywodraeth – graddfa, gwytnwch, gwerth am arian a hyfywedd yn erbyn dyddiad cau.

Edrychwn ymlaen at unrhyw adborth a allai fod gennych ar ein cyflwyniad. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau â'r gwaith gweithredu sydd eisoes ar y gweill.

Y Cyng. Elin Hywel	Cyngor Gwynedd (Cronfa Bensiwn Gwynedd)
Y Cyng. Mike Lewis	Cyngor Abertawe (Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe)
Y Cyng. Peter Lewis	Cyngor Powys (Cronfa Bensiwn Powys)
Y Cyng. Mark Norris	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cronfa Bensiwn RhCT)
Y Cyng. Dan Rose	Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd)
Y Cyng. Chris Weaver	Cyngor Dinas Caerdydd (Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg)
Y Cyng. Elwyn Williams (Cadeirydd)	Cyngor Sir Gâr (Cronfa Bensiwn Dyfed)
Y Cyng. Nathan Yeowell	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen))

Aelodau o Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC

Dros ac ar ran PPC

Cynnwys

1. Cyflwyniad: PPC Heddiw ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol
2. Crynodeb Gweithredol
3. Ystyried opsiynau eraill a phenderfyniad i adeiladu
4. Cynnig adeiladu: cwrdd â gofynion cyd-fuddsoddi newydd y Llywodraeth
 - 4.1 Model Gweithredu Cyd-gronfa Cyfredol
 - 4.2 Gofynion model gweithredu cyd-gronfa newydd arfaethedig y Llywodraeth
 - 4.3 Model Gweithredu Targed Newydd
 - 4.4 Y gwasanaethau a ddarperir a sut y byddant yn cael eu darparu
 - 4.5 Siart sefydliad – uwch reolwyr ac unedau swyddogaethol
 - 4.6 Llywodraethu
5. Gweithredu
 - 5.1 Dull o sefydlu IM Co newydd
 - 5.2 Uwch Reolwyr (rolau SMF)
 - 5.3 Partneriaid cyflawni gwasanaethau
 - 5.4 Personél IM Co PPC
 - 5.5 Technoleg
 - 5.6 Costau a buddion
6. Cynllun gweithredu
 - 6.1 Trosolwg o'r cynllun, tîm y prosiect a llywodraethiant y prosiect
 - 6.2 Cerrig milltir llwybr critigol
 - 6.3 Camau cymeradwyo awdurdod gweinyddu
 - 6.4 Cynllun llogi a chaffael
 - 6.5 Cynllun ar gyfer trosglwyddo asedau etifeddiaeth gan gynnwys marchnadoedd preifat a buddsoddiadau goddefol
7. Meini prawf asesu'r Llywodraeth
8. Dyheadau tymor hwy – 2030 a thu hwnt
9. Casgliad

Atodiadau

Atodiad 1 – Cost Pontio Buddsoddi Pe bai Uno

Atodiad 2 – Llogi a Chyflogres Diwrnod 1 a Diwrnod 2

Atodiad 3 – Cynllun y Prosiect a Ffrydiau Gwaith

Atodiad 4 – Rheolwyr Portffolio PPC

1. Cyflwyniad: PPC heddiw ac Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

PPC hyd yma

Mae PPC yn gydweithrediad daearyddol sy'n cynrychioli'r holl gronfeydd pensiwn CPLIL yng Nghymru.

Nid yw cydweithio ar draws yr wyth cronfa bensiwn CPLIL yng Nghymru yn rhywbeth newydd – mae gan y gronfeydd hyn hanes hir a phroffedig o weithio gyda'i gilydd. Nododd adroddiad 2013 *"Welsh LGPS - Working Together"* fod dull ar y cyd yn cyflawni'r arbedion graddfa, effeithlonrwydd gweithredol a chanlyniadau buddsoddi gwell y mae gronfeydd sylfaenol eu heisiau, tra'n gatalydd i nodi buddsoddiadau lleol a sefydlu polisiau buddsoddi cyfrifol a pholisïau eraill.

Adeiladwyd yr achos busnes strategol ar gyfer wyth cronfa CPLIL Cymru i ffurfio cronfa fuddsoddi i Gymru ar y sylfeini cadarn a osodwyd yn y perthnasoedd gwaith agos presennol. Roedd hefyd, yn bwysig, yn cynnig cyfle i sefydlu cronfa gyd-fuddsoddi i Gymru sy'n adlewyrchu nodweddion diwylliannol a chenedlaethol unigryw cenedl ddatganoledig, gyda'r cyfle i wneud gwahaniaeth i randdeiliaid CPLIL yng Nghymru. O safbwynt ymarferol, roedd y cynnig yn mynd i'r afael â'r rhwymedigaethau rheoleiddio ynghylch Deddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r drefn archwilio wahanol sy'n bresennol yng Nghymru.

Roedd sefydlu a strwythuro PPC yn ffurfiol yn 2015 yn cydymffurfio'n llawn â meini prawf y Llywodraeth ar y pryd, tra'n bodloni gofynion strategol 8 cronfa bensiwn CPLIL Cymru sylfaenol, a adlewyrchir yn y fframwaith cynrychioladol, llywodraethu agored a gweithredol a sefydlwyd. Roedd y model wedi ymrwymo'n llawn i ysgogi sgiliau ac arbenigedd y farchnad, gan logi'r bensaerniaeth gronfa sylfaenol a'r gallu rheoli buddsoddiadau wrth arfer ei statws fel buddsoddwr o raddfa sylweddol i ddarparu arbedion ffioedd a buddion gweithredol i'r gronfeydd sylfaenol.

Mae llwyddiannau PPC hyd yma yn cynnwys:

- 70% o'r asedau wedi'u cyd-fuddsoddi
- Llywodraethu cadarn a chydweithrediad wedi'i alinio i lefel uchel rhwng yr awdurdodau gweinyddol yng Nghymru
- Arbedion ffioedd cyflawni o £40m
- Cerbydau cyd-fuddsoddi pwrpasol ar gyfer buddsoddwyr PPC
- Sefydlu ystod o 10 is-gronfa asedau rhestredig aml-reolwr i ddiwallu anghenion strategaeth fuddsoddi awdurdodau gweinyddol
- Sefydlu gronfeydd marchnad breifat mewn Dyledion Preifat, Seilwaith, Ecwiti Preifat ac Eiddo Tiriog
- Gwasanaethau Rheoli a Gweithredu Portffolio Dirprwyedig ar draws asedau rhestredig a marchnadoedd preifat
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol, Polisi Stiwardiaeth ac Ymgysylltu, Fframwaith Rheoli Risg
- Penodi darparwr pleidleisio ac ymgysylltu i weithredu polisiau cyd-gronfeydd
- Rhaglen benthyca stoc cronfa i ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau awdurdodau gweinyddol
- Sefydlwyd rhaglen hyfforddi cyd-gronfa ar gyfer y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, pwyllgorau A101 yr awdurdod gweinyddol ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol i gefnogi llywodraethu da
- Sefydlu grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Defnyddio cyfalaf effeithiol lleol/cenedlaethol (Cymru) (drwy fuddsoddi mewn seilwaith adnewyddadwy, tai fforddiadwy, storio batris, cyfalaf naturiol)

The WPP – Fit for the Future

Mae PPC yn croesawu adolygiad y Llywodraeth a lansiwyd ar 14 Tachwedd 2024, ac mae ymateb ffurfiol PPC i'r ymgynghoriad hwnnw wedi'i gyflwyno yn unol â'r amserlen. Mae'n cyd-fynd â chasgliadau'r Llywodraeth ym mharagraff 62 o'r ymgynghoriad:

"62..... In particular, the Wales Pension Partnership operates within a devolved nation and has separate partnerships with the Welsh Corporate Joint Committees. It may therefore make sense for Welsh LGPS funds to continue in a separate pool."

Ar ôl rhoi ystyriaeth drylwyr i'r opsiynau eraill, mae'n amlwg na fyddai cyfuno neu ddod yn gleient o gyd-gronfa arall yn *"more cost effective or otherwise preferable approach to achieving compliance"*.

Mae'r cyflwyniad hwn yn nodi'r achos busnes cryf o blaid cadw PPC fel cronfa gyd-fuddsoddi annibynnol i Gymru, gan adeiladu'r gofynion ychwanegol ar gyfer y model gweithredu cyd-gronfa a nodwyd gan y Llywodraeth yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant PPC hyd yma ac yn cyflawni ar draws yr ystod o amcanion y mae'r Llywodraeth wedi'u nodi yn ei huchelgeisiau ar gyfer cynnydd y CPLIL – yn benodol, y CPLIL yng Nghymru. Mae'r cyflwyniad hwn yn dangos gallu PPC i gyflawni ar draws pob agwedd fel cronfa gyd-fuddsoddi annibynnol.

Mae PPC yn cynnig sefydlu Awdurdod Ymddygiad Ariannol annibynnol ("**FCA**") cwmni rheoli buddsoddi awdurdodedig ("**IM Co**") yn unol â meini prawf y Llywodraeth ac i symud holl asedau PPC i reoli IM Co yn unol â'r amserlenni a amlinellwyd. Mae'r cyflwyniad hwn hefyd yn dangos y gwerthusiad gwrthrychol o'n cynlluniau yn erbyn meini prawf a nodwyd gan y Llywodraeth (Manteision Graddfa, Gwydnwch, Gwerth am Arian, Hyfywedd yn erbyn llinell amser) a sut mae hyn yn cael ei gymharu orau ag opsiynau eraill.

Mae'r penderfyniad i adeiladu IM Co PPC yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth mewn buddsoddiad CPLIL yng Nghymru, gan greu cyfleoedd gyrfa gwerthfawr wrth wella'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru.

Mae'r model gweithredu targed arfaethedig yn adeiladu ar y llwyddiant, y profiad cadarnhaol a'r perthnasoddd strategol proffesiynol a sefydlwyd ac a ddatblygwyd yn y daith PPC hyd yn hyn. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei fabwysiadu i gyflymu'r 'pontio' i'r model gweithredu newydd erbyn y dyddiad penodedig o fis Mawrth 2026 a bydd yn parhau i drosoli manteision y raddfa sydd gan ein partneriaid yn y farchnad, wrth adeiladu gallu i nodi ac ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar fuddsoddiadau lleol, darparu gwasanaethau cynghori buddsoddi a rheoli asedau etifeddiaeth.

Mewn amser, mae IM Co PPC yn bwriadu darparu manteision ychwanegol i fuddsoddwyr awdurdod gweinyddol trwy ymestyn yr ystod o alluoedd rheoli buddsoddiadau mewnol.

Mae'r perthnasoddd strategol a sefydlwyd gyda'n partneriaid cyflenwi gwasanaeth presennol yn galluogi esblygiad rhesymegol o'r model PPC presennol i IM Co a reolir gan FCA annibynnol. Yn amodol ar gamau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith caffael cyhoeddus, rydym yn bwriadu trosglwyddo'r perthnasoddd hyn i'r IM Co newydd a'r model gweithredu diwrnod 1. Mae'r model yn harneisio profiad ac adnoddau'r partneriaid hyn sydd eisoes wedi'u rheoleiddio gan yr FCA, a fydd yn cynorthwyo'n fawr y broses i ffurfio IM Co a reoleiddir gan yr FCA ac yn bodloni'r meini prawf ymgeisio trylwyr, gan gynghori a chynorthwyo ar benodi'r uwch bersonél rheoli allweddol sy'n ofynnol gan yr FCA ar ôl awdurdodi wrth ddarparu'r adnoddau i ddarparu gwasanaethau cynghori buddsoddi IM Co.

Wrth werthuso opsiynau cronfeydd eraill, roedd osgoi'r angen i drosglwyddo asedau PPC i gronfa CPLIL arall yn ffactor arwyddocaol o ystyried y costau pontio sylweddol sy'n gysylltiedig, sydd wedi'u modelu'n geidwadol ar oddeutu £45m ar asedau rhestredig a reolir yn weithredol yn unig. (Ffynhonnell: Russell Investment Management). Byddai costau pontio ychwanegol pellach ar asedau rhestredig goddefol a marchnad breifat.

Wrth uno, byddai llais PPC yn cael ei wanhau mewn llywodraethiant fel cyfranddaliwr neu gleient o'i gymharu â'r dewis arall sy'n cael ei ffafrio. Gallai hyn gyfyngu ar ein gallu i gyfeirio buddsoddiad lleol i gymunedau yng Nghymru, er enghraifft. Mae uno yn gofyn am gytundeb cronfa bartner, awdurdodiad FCA a throsglwyddo asedau. Byddai hefyd yn cymryd sawl blwyddyn, gan ddargyfeirio adnoddau rhag cyflenwi heb fuddion iawndal amlwg.

Mae sefydlu IM Co PPC yn sicrhau bod cof corfforaethol awdurdodau gweinyddol yng Nghymru yn cael ei gadw, er mwyn parhau i reoli'r portffolio o asedau etifeddiaeth yn effeithlon; byddai hynny'n cael ei golli pe bai gorfodaeth i drosglwyddo i gyd-gronfa arall. Mae'r cyflwyniad hwn yn dangos bod opsiynau cyd-gronfeydd eraill wedi'u diystyru am yr holl resymau a nodwyd yma. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws cyd-gronfeydd, gan gynnwys cyfleoedd cyd-fuddsoddi sy'n cefnogi twf y DU.

Mae ffurfio IM Co PPC yn cyflwyno cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu Cwmni Buddsoddi CPLIL annibynnol er budd holl randdeiliaid y 22 awdurdod lleol sylfaenol yng Nghymru, 382 o gyflogwyr a 412,000 o aelodau. Nid yn unig y gall PPC barhau i fuddsoddi ar gyfer ei aelodau a diogelu pensiynau CPLIL, ond bydd yn cael cyfle i barhau â'i rôl yn buddsoddi'n lleol ledled Cymru a gweddill y DU, gan weithio gyda Chynghorau, Cyd-bwyllgorau Corfforedig, Banc Datblygu Cymru, Banc Busnes Prydain a Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo twf economaidd, darparu cyflogaeth, diogelu ynni glân a gwella seilwaith ehangach y wlad, er budd pobl Cymru.

2. Crynodeb Gweithredol

Dadansoddi opsiynau a phenderfyniad i adeiladu

- 2.1 Mae awdurdodau gweinyddol PPC yn cytuno'n gryf â barn y Llywodraeth yn yr ymgynghoriad "Fit for the Future" (paragraff 62) bod ystyriaethau unigryw mewn perthynas â Chymru sy'n cefnogi parhad cronfa cyd-fuddsoddi ar wahân ar gyfer yr 8 cronfa CPLIL yng Nghymru.
- 2.2 Mae angen parhau â chronfa cyd-fuddsoddi ar wahân i Gymru i adlewyrchu nodweddion diwylliannol a chenedlaethol unigryw cenedl ddatganoledig.
- 2.3 Credwn mai dyma'r unig opsiwn a fydd yn sicrhau bod PPC yn gallu cyfeirio buddsoddiad lleol yn effeithiol i hyrwyddo twf economaidd a chefnogi cymunedau yng Nghymru (nod allweddol ar gyfer cronfa annibynnol i Gymru) ac fe all hefyd gyflawni nodau buddsoddi cyfrifol penodol rhanddeiliaid CPLIL yng Nghymru yn effeithiol ac yn gost-effeithlon. (Enghraifft yw lansiad mandadau goddefol sydd ar ddod wedi'u halinio'n benodol â pholisïau buddsoddi cyfrifol PPC.)
- 2.4 Mae'r dull hwn yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth mewn buddsoddiad CPLIL yng Nghymru, gan greu cyfleoedd gyrfu a gwella'r sector gwasanaethau ariannol yng Nghymru, gan adeiladu ar lwyddiant Banc Datblygu Cymru. O safbwynt ymarferol, dyma'r dull mwyaf credadwy sy'n ein galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddiol ynghylch Deddf yr Iaith Gymraeg, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r drefn archwilio wahanol yng Nghymru.
- 2.5 Mae PPC wedi rhoi ystyriaeth drylwyr i'r opsiynau i uno neu ddod yn gleient i gyd-gronfa arall. Nid yw'r opsiynau hynny'n mynd i'r afael â'r ystyriaethau unigryw mewn perthynas â Chymru, a byddai hyn yn arwain at gael llai o ddylanwad fel cleientiaid a chyfranddalwyr i lunio gwasanaethau buddsoddi CPLIL i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid yng Nghymru, byddai'n aneffeithiol wrth gyfeirio buddsoddiad lleol at economi a chymunedau Cymru a byddent o bosibl yn codi costau gwerth £50m neu fwy i rhanddeiliaid CPLIL (costau pontio buddsoddi ar asedau rhestredig, costau cyfreithiol a chostau cynghorwyr eraill a chostau dirwyn i ben trefniadau cyfuno cyfredol) heb unrhyw arbedion cost gwrthbwysu materol.
- 2.6 Felly, rydym yn bwriadu parhau fel cronfa cyd-fuddsoddi ar wahân ac addasu ein model gweithredu i fodloni holl ofynion y Llywodraeth, gan gynnwys sefydlu cwmni rheoli buddsoddi a reolir gan FCA ("IM Co").

Cynnig adeiladu: bodloni gofynion model gweithredu cyd-gronfa newydd y Llywodraeth

- 2.7 Mae PPC yn dechrau mewn sefyllfa lle mae llawer o elfennau allweddol y model gweithredu gofynnol eisoes ar waith - cerbydau cyd-fuddsoddi gan gynnwys Cynlluniau Cytundebol Awdurdodedig (ACSS) pwrpasol ar gyfer buddsoddiadau PPC sy'n cael eu rheoli yn weithredol a goddefol, gwasanaethau gweithredu dirprwyedig a rheoli buddsoddiadau yn ôl disgresiwn dirprwyedig trwy "weithredwyr" cronfeydd a rheolwyr portfolio a reolir gan FCA ar draws asedau marchnad rhestredig a phreifat a llywodraethu a goruchwylio darparwyr gwasanaeth cyd-gronfeydd PPC.
- 2.8 Byddwn yn ychwanegu at ein model gweithredu IM Co a reolir gan yr FCA gyda chaniatâd cynghori a rheoli buddsoddi. Bydd yn cael ei staffio gan weithwyr proffesiynol profiadol o'r diwydiant. Bydd yr IM Co yn darparu gwasanaethau gweithredu (gan drosglwyddo unrhyw waith gweithredu lleol sy'n weddill i'r IM Co a thros amser datblygu galluoedd rheoli portfolio mewnol), cyngor buddsoddi, gallu buddsoddi lleol (cyrchu, asesu a rheoli buddsoddiadau lleol) a rheoli asedau etifeddiaeth (h.y. disgwylir y bydd yr holl asedau etifeddiaeth yn cael eu rheoli o ddiwrnod 1).
- 2.9 Gyda chefnogaeth a dilysiad gan ddarparwyr gwasanaeth ac ymgynghorwyr presennol (gan gynnwys arbenigwyr mewn cydymffurfiaeth ac awdurdodiad FCA), rydym wedi cwblhau'r gwaith dylunio lefel uchel ar y model gweithredu targed newydd ar gyfer yr IM Co newydd a reolir gan yr FCA a llywodraethu ar ochr y cleient.
- 2.10 Bydd IM Co PPC yn parhau i ddefnyddio cynrychiolwyr trydydd parti presennol a newydd i gefnogi darparu gwasanaethau (e.e. gweithredwyr cronfeydd, rheolwyr disgresiwn ar gyfer asedau rhestredig a heb eu rhestru ac ymgynghorwyr buddsoddi). Mae hyn yn rhoi mynediad i PPC i fanteision graddfa partneriaid gwasanaeth, yn darparu gwytnwch yn y model gweithredu, yn lleihau'r risg gweithredu (lleihau gofynion llogi ac adeiladu ar gyfer diwrnod 1) ac yn galluogi trosglwyddo'n raddol i fwy o alluoedd mewn perthynas â gwasanaethau rheoli portfolio ac ymgynghori mewnol. Mae'r dull hwn hefyd yn rhoi rhagor o amser i'r Prif Swyddog Gweithredol newydd a'u tîm lunio datblygiad IM Co PPC yn y dyfodol, ynghyd â thwf y ddarpariaeth gwasanaethau.

- 2.11 Rydym yn cynllunio elfennau newydd ychwanegol yn y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys Bwrdd Cyfranddalwyr ar ochr y cleient gyda chynrychiolwyr o'r holl awdurdodau gweinyddol. Rôl y Bwrdd Cyfranddalwyr yw cytuno ar "faterion neilltuedig" cyfranddalwyr mewn perthynas â'r IM Co PPC (sy'n eiddo llwyr i'r awdurdodau gweinyddol), gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau busnes a chyllidebau a gynigir gan yr IM Co a'i uwch swyddogion.

Costau gweithredu a rhedeg IM Co

- 2.12 Yn seiliedig ar y model gweithredu targed, rydym wedi asesu'n llawn gofynion adnoddau mewnol diwrnod 1 a diwrnod 2, gofynion technoleg a chostau (gan gynnwys costau partneriaid gwasanaeth allanol).
